



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

## Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol

Mawrth 2023

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	2
2. Trosolwg o'r Ymatebion .....	3
3. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad.....	4
Pennod 1: Cyflwyniad .....	5
Pennod 2: gweledigaeth hirdymor ar gyfer etholiadau datganoledig .....	7
Pennod 3: Symleiddio Cofrestru Etholiadol yng Nghymru .....	12
Pennod 4: Cryfhau Gweinyddu Etholiadol .....	22
Pennod 5: Adeiladu Iechyd Democratiaidd.....	41
Pennod 6: Moderneiddio Etholiadau Cymru .....	55
Pennod 7: Gwella Ein Democratiaeth .....	64
4. Crynodeb o ddigwyddiadau Ymgysylltu .....	74
5. Y Camau Nesaf .....	76
6. Rhestr o'r Ymatebwyr .....	76

# 1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol ar 11 Hydref 2022 ac ymgynghorwyd ar ein cynigion ar gyfer diwygio etholiadol a moderneiddio gweinyddiaeth etholiadol yng Nghymru. Roedd yn adeiladu ar y fframwaith ar gyfer diwygio etholiadol a gyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 15 Gorffennaf 2021.
- 1.2 Cyhoeddwyd fersiynau Addas i Bobl Ifanc, Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain o'r ymgynghoriad, ochr yn ochr â'r brif ddogfen.
- 1.3 Roedd y Papur Gwyn yn nodi'r weledigaeth tymor hwy ar gyfer diwygio etholiadol ac yn gofyn am farn ynghylch pa newidiadau allai fod yn ddymunol yn y dyfodol a dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach. Roedd hefyd yn cynnig diwygio ar unwaith:
  - i symleiddio cofrestru etholiadol a datgan yn gliriach etholfraint etholiadol Cymru,
  - i wella gweinyddiaeth etholiadau datganoledig,
  - i gefnogi pleidleiswyr ac ymgeiswyr i gymryd rhan mewn etholiadau,
  - i foderneiddio etholiadau gan ystyried technoleg newydd a gofynion dinasyddion,
  - a gwelliannau ehangach i'r ffordd y mae democratiaeth leol yn gweithredu y tu hwnt i etholiadau.
- 1.4 Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd deg digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau, rheolwyr gwasanaethau etholiadol, a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn). Cawsant eu dylunio i gael barn rhanddeiliaid a phrofi'r defnydd ymarferol o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad.
- 1.5 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r gwahanol ffurfiau ar y papur ymgynghori a chrynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu (yn Adran 5).

## 2. Trosolwg o'r Ymatebion

2.1 Cafwyd cyfanswm o 137 o ymatebion gan sefydliadau ac unigolion ar draws yr holl fformatau arolwg a oedd ar gael.

Tabl 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math ar draws holl fformatau'r arolwg

Math o Ymatebydd	Nifer yr ymatebwyr	Canran yr ymatebwyr
Aelod o'r cyhoedd	29	21.2
Aelod Etholedig	8	5.8
Awdurdod Lleol	10	7.3
Swyddog Canlyniadau	4	2.9
Cyngor Cymuned / Tref	14	10.2
Trydydd Sector	11	8.0
Corff cynrychioliadol, Corff Proffesiynol neu Gymdeithas	6	4.4
Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff arall yn y Sector Cyhoeddus	7	5.1
Arall	48 <sup>1</sup>	35.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>137</b>	<b>100</b>

2.2 Mae rhestr o'r holl ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Adran 6.

2.3 Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn Adran 3.

---

<sup>1</sup> Ymatebodd 39 o'r rhain i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc, nad oedd yn gofyn am unrhyw ddata adnabod personol.

### 3. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

#### Methodoleg

3.1 Gellir gweld y papur ymgynghori [yma](#) ac mae'n cynnwys gwybodaeth gefndirol a chyd-destun pob un o'r cwestiynau a ofynnwyd.

3.2 Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r fformat laith Arwyddion Prydain. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Cwestiwn - prif fformat yr ymgynghoriad
  - Graffiau lle bo hynny'n berthnasol
  - Dadansoddiad testunol o'r ymatebion i brif gwestiwn yr ymgynghoriad
- Cwestiwn - Fformat Addas i Bobl Ifanc
  - Graffiau lle bo hynny'n berthnasol
  - Dadansoddiad testunol o'r ymatebion i'r cwestiwn Addas i Bobl Ifanc
- Cwestiwn - Fformat Hawdd ei Ddeall
  - Dadansoddiad testunol o'r ymatebion i'r cwestiwn Hawdd ei Ddeall

3.3 Mae'r graffiau yn yr adroddiad hwn yn dangos ymatebion fel canrannau ar gyfer y prif ymateb i'r ymgynghoriad, rhanddeiliaid yn erbyn aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd i'r prif ymgynghoriad, ac ymatebion i'r ymgynghoriad i bobl ifanc. Nid oes graffiau wedi'u cynnwys ar gyfer ymatebion i fformat Hawdd ei Ddeall yr ymgynghoriad gan nad oedd y cwestiynau'n gofyn am atebion pendant ie/na ac yn caniatáu i ymatebwyr ymateb mewn fformat testun agored.

3.4 Lle rydym wedi cymharu ymatebion gan grwpiau rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn y dadansoddiad, rydym wedi ystyried 'aelodau o'r cyhoedd' i fod y bobl hynny a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn unigol, a 'rhanddeiliaid' i fod y rhai a ymatebodd naill ai mewn rhinwedd broffesiynol neu ar ran sefydliad. Pan nad oedd unigolyn wedi rhoi ei enw, tybiwyd ei fod yn ymateb fel aelod o'r cyhoedd.


3.5 Pan gyfeirir at 'rhanddeiliaid allweddol', mae hyn yn golygu'r rheini sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau yng Nghymru a'r rheini sy'n cyfrannu'n rheolaidd at ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru, fel y Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, a Swyddogion Canlyniadau.

3.6 Mae swyddogion sy'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi defnyddio eu barn wrth gategoreiddio testun agored neu ymatebion ansicr ac felly gallai ffigurau o'r fath yn y naratif gyflwyno safbwyntiau'n wahanol i'r ffordd y cânt eu cyflwyno yng ngraffiau pennawd yr Arolwg Clyfar. Mae canrannau o fewn y graffiau wedi'u talgrynnu i un lle degol ac felly efallai y bydd rhai gwahaniaethau bach wrth gyfrifo cyfansymiau yn y graffiau.

## Pennod 1: Cyflwyniad

### C1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r chwe egwyddor ar gyfer diwygio etholiadol sef tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad, gwella profiad dinasyddion, symrlwydd ac uniondeb?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 72



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd cefnogaeth gref i'r chwe egwyddor ar gyfer diwygio etholiadol gydag 87% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn naill ai'n cytuno'n llwyr neu'n rhannol â nhw. Er eu bod yn croesawu'r egwyddorion, roedd gweinyddwyr etholiadol wedi mynegi pryderon ynghylch y rhyngweithio rhwng egwyddorion a chyflawniad ymarferol diwygio etholiadol o ystyried y gwahaniaeth cynyddol mewn gweinyddiaeth rhwng etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig. Pwysleisiodd Awdurdodau Lleol bwysigrwydd cefnogaeth ac adnoddau digonol i dimau gwasanaethau etholiadol. Awgrymwyd bod uniondeb, cymesuredd, gwerth am arian, y gallu i gyflawni ac adnoddau yn egwyddorion pwysig ychwanegol i fod yn sail i'n dull o ddiwygio.


#### Hawdd ei Ddeall C1. Beth yw eich barn chi ar ein 6 egwyddor?

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: 6

Roedd pump o'r ymatebwyr o blaid y chwe egwyddor. Dywedodd un ymatebydd ei fod am i ofyniad i adnabod pleidleiswyr gael ei gynnwys yn yr egwyddorion.

### Addas i Bobl Ifanc C1. Ydych chi'n cytuno â'r 6 egwyddor?

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 38




Dyweddodd bron i 66% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r chwe egwyddor.

## Pennod 2: gweledigaeth hirdymor ar gyfer etholiadau datganoledig

### C2. A ddylai Llywodraeth Cymru neilltuo adnoddau i ystyried sut y gallai pleidleisio electronig o bell weithio ar gyfer etholiadau datganoledig?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 74



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd dros 60% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut gallai pleidleisio electronig o bell weithredu ar gyfer etholiadau datganoledig yn y tymor hwy. Roeddent o'r farn y gallai arloesedd digidol helpu i gynyddu ymgysylltiad democrataidd a'r nifer sy'n pleidleisio, yn enwedig o ran pleidleiswyr ifanc, pleidleiswyr sydd â phroblemau hygrychedd a phleidleiswyr mewn cymunedau gwledig. Roedd cefnogaeth gyffredinol ymysg yr holl grwpiau ymatebwyr.

Roedd pryderon a godwyd yn ymwneud â diogelwch pleidleisio ar-lein, cynnal hyder y cyhoedd yn uniondeb etholiadau, cost a gwerth am arian, mwy o wahaniaethau mewn arferion rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau a gadwyd yn ôl, ac allgáu digidol i bleidleiswyr heb fynediad at offer electronig. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i bleidleisio electronig weithredu ochr yn ochr â mathau eraill o bleidleisio i sicrhau cynhwysiant.



**Hawdd ei Ddeall C2: Ddylai Llywodraeth Cymru dreulio amser a gwario arian yn ymchwilio i bleidleisio ar-lein?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: 6

Nid oedd dwy ran o dair o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad Hawdd ei Ddeall am i Lywodraeth Cymru ymrwymo adnoddau i archwilio i bleidleisio ar-lein, gan nodi costau a diogelwch fel y prif bryderon.

Roedd y rheini a oedd o blaid yn credu y byddai pleidleisio ar-lein yn annog mwy o ymgysylltiad a chyfranogiad mewn etholiadau, yn enwedig ymysg pleidleiswyr ifanc.

**Addas i Bobl Ifanc C2. Ydych chi'n meddwl bod pleidleisio ar-lein yn syniad da?**

Nifer yr ymatebion Addas i Bobl Ifanc: 37

Roedd 49% o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn credu bod pleidleisio ar-lein yn syniad da ac y byddai'n gwneud pleidleisio'n fwy hygyrch ac yn annog mwy o gyfranogiad yn y broses ddemocrataidd, ar yr amod bod y systemau'n ddiogel. Roedd 43% yn credu nad oedd yn syniad da ac roedd 8% yn ansicr.

Diogelwch oedd y pryder mwyaf i'r rheini a oedd yn gwrthwynebu pleidleisio ar-lein. Roedd pryderon eraill yn cynnwys y risg o allgáu digidol, yn enwedig ymysg pleidleiswyr hŷn, a dibynadwyedd y seilwaith TG. Roedd dau ymatebydd o'r farn bod y trefniadau pleidleisio presennol yn ddigonol.

**C3. Pa effeithiau, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y byddai cyflwyno cronfa ddata Cymru o ddata cofrestru etholiadol yn eu cael ar y broses etholiadol (fel cofrestru a gwasanaethau etholiadol)? Meddyliwch am yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, a rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ymateb, os yw ar gael. Rhowch sylwadau ar bob nodwedd yn unigol.**


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 65

Roedd 38% o'r ymatebwyr yn erbyn cyflwyno Cronfa Ddata Cymru o ddata cofrestru etholiadol. Roedd yr ymatebwyr yn bryderus ynghylch cost gyffredinol system o'r fath gan nodi nad oedd y manteision yn cyfiawnhau'r costau hyn. Codwyd hefyd effaith sylweddol hacio neu dwyll data a photensial hyn i atal pobl rhag cofrestru. Pryder arall oedd cymhlethdodau gweinyddol rheoli'r gronfa ddata ochr yn ochr â'r system gofrestru bresennol sy'n ofynnol ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl.

Roedd 34% o'r ymatebwyr o blaid y gronfa ddata, gan nodi'r potensial ar gyfer gwell diogelwch, effeithlonrwydd ac arbedion o ran costau. Roedd y manteision penodol a nodwyd yn cynnwys symleiddio'r broses o drosglwyddo data rhwng wardiau a mwy o gywirdeb data. Gallai gefnogi cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran sut mae pobl yn pleidleisio yn y dyfodol.

### **Addas i Bobl Ifanc C3. Ydych chi'n meddwl bod Cronfa Ddata Cymru yn syniad da?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 36



Roedd 63.9% o'r ymatebwyr i'r Papur Gwyn Addas i Bobl Ifanc yn credu bod cronfa ddata Cymru yn syniad da. Nododd ymatebwyr y gallai fod manteision o ran cywirdeb data, lleihau cofrestradau dyblyg a chynnal cywirdeb data.

Roedd 25% yn erbyn, gan nodi pryderon ynghylch ymddiriedaeth a'r farn y byddai Gweinidogion yn rheoli pwy fyddai'n gallu pleidleisio. Roedd ymatebwyr hefyd yn bryderus y byddai'n cymryd cyfrifoldeb dros y gofrestr oddi wrth y lefel leol.

### **C4. Beth yw eich barn am (a) defnyddio darpariaethau Deddf Etholiadau 2022 deddfwriaeth bresennol o ran argraffnodau digidol ar gyfer deunydd ymgyrchu digidol, a (b) enwebiadau ar-lein?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 51

#### **Argraffnodau Digidol**

Gofynnem am safbwyntiau ar y drefn argraffnodau digidol yn Neddf Etholiadau 2022 sy'n mynnu bod deunyddiau gwleidyddol digidol yn nodi pwy oedd wedi'u cynhyrchu neu wedi talu amdanynt. Nododd ymatebwyr swmp a phwysigrwydd cynyddol ymgyrchu digidol mewn etholiadau ac roedd 65% o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno trefn argraffnodau digidol. Nododd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd system gyson ar draws y DU ac etholiadau datganoledig ac etholiadau a gadwyd yn ôl. Nododd ymatebwyr eu bod yn teimlo y gallai'r gofynion argraffnodau digidol fynd ymhellach.

Nid oedd 15% yn cefnogi defnyddio trefn argraffnodau digidol, gan ystyried ei bod yn fwy o reolaeth gan y llywodraeth, yn faich a fyddai'n llesteirio trafodaeth ac yn arwain at gostau.


#### **Enwebiadau Ar-lein**

Gwnaethom ofyn am safbwyntiau ar arloesi digidol, gan alluogi enwebiadau ar gyfer ymgeisyddiaeth mewn etholiadau datganoledig i gael eu ffeilio ar-lein. Roedd 42% o'r ymatebwyr o blaid, gan nodi y gallai system ar-lein arbed amser i swyddogion gwasanaethau etholiadol a gwella cywirdeb a hygyrchedd i ymgeiswyr. Awgrymwyd y dylai system ar-lein reoli blaendaliadau ymgeiswyr.

Roedd 15% o'r ymatebwyr yn erbyn system enwebu ar-lein, gan nodi y gallai atal ymgeiswyr a pheryglu twyll a difreinio posibl.

### C5. A ddylai prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned ddychwelyd i gyfnodau o bedair blynedd?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 66



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Mynegwyd nifer o safbwyntiau ar ddwy ochr y ddadl. O'r ymatebwyr a fynegodd ddewis, dywedodd 53% nad oeddent yn cefnogi dychwelyd i gyfnodau o bedair blynedd. Roedd 27% yn cefnogi cyfnodau o bedair blynedd, ac nid oedd bron i 20% o'r ymatebwyr wedi mynegi eu barn.

Roedd ymatebwyr o blaid dychwelyd i gyfnodau o bedair blynedd yn mynegi barn bod pedair blynedd yn gyfnod digon hir i'r cyngor ddangos ei allu, gan roi cyfnodau atebolrwydd mwy rheolaidd i'r cyhoedd; a'r hyder y byddant yn cael cyfleoedd amlach i gael gwared ar gynghorwyr drwy'r blwch pleidleisio os ydynt yn anhapus â'u perfformiad. Mynegodd ymatebwyr hefyd farn bod etholiadau amlach yn hoelio sylw'r gwrthbleidiau ar fusnes cynghorau, gan annog mwy o graffu i gefnogi'r pwynt bod llywodraeth dda yn elwa o wrthwynebiad cryf.

Nododd ymatebwyr o blaid cadw at gyfnodau o bum mlynedd eu bod yn osgoi dryswch i etholwyr ar ddiwrnod yr etholiad, drwy osgoi cynnal mwy nag un etholiad ar yr un pryd, a oedd yn cael ei ystyried yn bwynt allweddol ar gyfer parhad. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn bod y dull hwn yn arwain at arbedion o ran costau yn y tymor hir. Awgrymwyd hefyd bod tymor o bum mlynedd yn rhoi digon o amser i gynghorau wneud cynlluniau priodol i gyflawni ymrwymadau manifesto, gan nodi ei bod yn anochel y bydd ffocws y pumed tymor yn symud yn rhannol i'r etholiad nesaf. Mae ymatebwyr hefyd o'r farn ei fod yn rhoi mwy o gyfleoedd i aelodau newydd ddod yn gyfarwydd â'u rolau a meithrin perthynas ag ystod eang o'u hetholwyr.


Yn gyffredinol, mynegodd unigolion, gan gynnwys y rheini nad oeddent wedi mynegi eu ffafriaeth, bryder sylweddol ynghylch yr angen i osgoi dryswch ymysg yr etholwyr a allai o bosibl effeithio ar brofiad pleidleiswyr a'u cyfranogiad mewn democratiaeth

leol o ganlyniad.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai pob haen o lywodraeth fod yn seiliedig ar yr un hyd ar gyfer pob etholiad.

**Addas i Bobl Ifanc C4. Ydych chi'n meddwl y dylai hyd y cyfnod fod yn bedair neu'n bum mlynedd?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 37




O'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad Addas i Bobl Ifanc a fynegodd eu barn, roedd bron i 57% o blaid cyfnod o bedair blynedd, ac ychydig dros 43% yn cefnogi cyfnodau o bum mlynedd. Roedd y sylwadau a wnaed i gefnogi'r ymatebion yn adlewyrchu'r sylwadau a nodir uchod.

### Pennod 3: Symleiddio Cofrestru Etholiadol yng Nghymru

#### C6. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid ailddatgan yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig mewn un Ddeddf ddwyieithog i Gymru?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 62



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o blaid ailddatgan y fasnachfaint mewn un Ddeddf ddwyieithog yng Nghymru. Roedd 42 o'r ymatebwyr o blaid, ac roedd 13 yn erbyn.

Roedd pob un o'r 26 o randdeiliaid, ar wahân i 1, yn llwyr o blaid gwarantu'r fasnachfaint mewn un ddeddf ddwyieithog. Roedd amrywiaeth barn ymysg aelodau'r cyhoedd; roedd 12 o'r ymatebwyr o blaid ac 11 yn erbyn.

#### Hawdd ei Ddeall C3. Yn eich barn chi, ddylai'r gyfraith gael ei newid fel ei bod yn fwy clir pwy sy'n cael pleidleisio?


Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Chwech

Roedd amrywiaeth barn ymysg yr ymatebwyr ar y mater hwn. O'r chwe ymateb, roedd tri yn anghytuno â'r cynnig a dim ond dau oedd yn cytuno. Ar gyfer y rhai a oedd yn weddill, ni allem ddod i gasgliad ynghylch eu dewis o'r ymateb a roddwyd.

Gellid dosbarthu pob ymatebydd, heblaw am un, fel sefydliadau rhanddeiliaid.

### Addas i Bobl Ifanc C5. Ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da dweud yn glir pwy sy'n cael pleidleisio?

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 39



Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o blaid. Roedd 35 o ymatebwyr yn cytuno ac un oedd yn anghytuno. Ar gyfer gweddill yr ymatebion, nid oeddem yn gallu canfod beth oedd dewis yr ymatebwyr o'u sylwadau.

### C7. O'ch safbwynt chi, a ddylai'r etholfraint adlewyrchu'r newidiadau yn statws dinasyddion yr UE gan fod y DU wedi gadael yr UE erbyn hyn?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 61

Ar y cyfan, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid newidiadau i'r etholfraint mewn perthynas â hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE. Roedd 34 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, a dim ond saith oedd yn anghytuno.

O safbwynt rhanddeiliaid, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig yn frwd. Roedd 17 o randdeiliaid o blaid, a dim ond pedwar rhanddeiliad oedd yn erbyn. O safbwynt y cyhoedd, roedd 16 o ymatebwyr o blaid a thri yn erbyn.

Roedd nifer o randdeiliaid (gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chyngor Ceredigion) wedi mynegi pryderon cyfathrebu ynghylch y dryswch a allai gael ei achosi gan newidiadau i hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE. Roedd rhanddeiliaid yn gofyn i unrhyw newidiadau i'r etholfraint gael eu gwneud ymhell cyn etholiadau er mwyn galluogi'r gymuned etholiadol ac aelodau'r cyhoedd i ddeall y newidiadau ymhell cyn bwrw pleidlais.

Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau rhwng gweinyddiaethau'r DU ar hawliau pleidleisio'r UE, ac roeddent hefyd wedi rhoi eu barn ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Er bod y mwyafrif helaeth o randdeiliaid yn rhannu'r farn y dylai llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU geisio safoni eu polisiau ar drin dinasyddion yr UE, roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch sut gellid cyflawni hyn.

Er enghraifft, roedd nifer o randdeiliaid (gan gynnwys Swyddog Canlyniadau ac UCM Cymru) yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailadrodd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth yr Alban i adlewyrchu'r newidiadau yn statws dinasyddion yr UE.

**C8. Sut gallwn ni helpu pobl i ddeall eu bod wedi cael eu cofrestru'n awtomatig a theimlo'n hyderus bod eu data'n cael ei ddiogelu, yn enwedig ar gyfer pobl a allai fod yn agored i niwed neu sy'n dymuno cofrestru'n ddiennw?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 63

Yn gyffredinol, ni wnaeth bron hanner y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn, ond roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd o blaid y cysyniad o gofrestru awtomatig.

Roedd yr ymatebwyr yn canolbwyntio ar yr angen am ymgyrchoedd cyfathrebu da i helpu pobl i ddeall eu bod wedi cael eu cofrestru'n awtomatig i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig. Roedd awgrymiadau ar ffyrdd o sicrhau cyfathrebu clir ag etholwyr yn cynnwys cyfathrebu ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at yr etholwr ynghyd ag ymgyrchoedd gwybodaeth cenedlaethol, hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol a'r teledu a gweithio ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod etholwyr agored i niwed yn gallu rhoi gwybod i awdurdodau lleol os oedd eu sefyllfa'n golygu y gallai bod ar y gofrestr etholiadol achosi niwed iddynt. Byddai hyn yn rhoi amser iddynt gofrestru'n ddiennw gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol. Pwysleisiwyd y mater hwn yn y termau mwyaf difrifol gan nifer o ymatebwyr, a bydd yn allweddol i gamau treialu'r datblygiad polisi cofrestru awtomatig.


Un pryder a godwyd gan nifer fach o randdeiliaid allweddol oedd y gwahaniaeth rhwng y system bresennol o gofrestru rhwng etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig ac y bydd angen i etholwyr gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Seneddol o hyd. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai angen cymryd camau i sicrhau bod etholwyr yn deall y gofynion gwahanol hyn yn llawn er mwyn osgoi difreinio rhai etholwyr.

Nid oedd rhai ymatebwyr yn dymuno gweld cofrestru awtomatig yn cael ei gyflwyno. Roedd y rhesymau am hyn yn amrywio ac yn cynnwys y farn y dylai fod yn ofynnol i etholwyr gofrestru i bleidleisio er mwyn dangos ymgysylltiad â'r broses, a phryderon ynghylch dryswch etholwyr o ganlyniad i wahaniaethau.

Thema gyffredin ar draws yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd yr angen i ddiogelu data a sicrhau bod etholwyr yn teimlo bod eu data'n cael ei ddefnyddio at ddiben clir a bod gofynion GDPR yn cael eu bodloni. Bydd sicrhau hyder etholwyr yn y gwaith o drin, storio a defnyddio data yn hollbwysig yng nghamau nesaf y gwaith hwn.

## C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno â dileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau datganoledig?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 63



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Roedd 70% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylid dileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru. Er bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid allweddol yn cefnogi'r newid, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd y gofrestr agored yn cyflawni unrhyw ddiben cyhoeddus, roeddent yn pwysleisio y byddai'r gofrestr etholiadol Seneddol agored yn aros yn ei lle. Roeddent o'r farn y dylid dileu'r gofrestr agored ar gyfer y gofrestr Seneddol hefyd ac oni bai fod hynny'n digwydd ni fyddai dileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig yn cael yr effaith lawnaf posibl ac ni fyddai ond o fudd i bobl ifanc 16 ac 17 oed, a dinasyddion tramor cymwys.

O'r rhai a oedd yn anghytuno â dileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig, credai rhai nad oedd gan yr ymarfer fawr o werth gan y byddai'r gofrestr seneddol agored yn aros yn ei lle. Teimlai eraill na ddylid defnyddio data etholiadol at unrhyw ddiben arall sy'n gweinyddu etholiadau ac na ddylid ei rannu'n ehangach na'r awdurdod lleol o gwbl. Roedd yn amlwg nad oedd nifer o ymatebwyr yn deall y defnydd presennol o ddata etholiadol (y tu hwnt i weinyddu etholiadau). Dylai helpu etholwyr i ddeall sut mae eu data'n cael ei gasglu, ei gadw a'i ddefnyddio fod yn rhan annatod o'r gwaith cyfathrebu fel rhan o'r cynlluniau peilot cofrestru awtomatig.



## C10. A ddylai Llywodraeth Cymru roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael cytundebau rhannu data o fewn yr awdurdod ei hun a, lle bo'n berthnasol, gydag awdurdodau neu sefydliadau eraill?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 64



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Roedd bron i 55% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o blaid y syniad y dylai Llywodraeth Cymru roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael cytundebau rhannu data ar waith i atal etholwyr rhag cael eu methu wrth gofrestru'n awtomatig. Nododd ymatebwyr fod tystiolaeth o gytundebau rhannu data llwyddiannus rhwng awdurdodau lleol a phrifysgolion (yn enwedig yn Lloegr) ac y gallai gynyddu nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru ac yn cymryd rhan.

Roedd tua 30% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â'r cynnig. Teimlai rhai y byddai hyn yn rhoi gormod o faich ar awdurdodau lleol ac y byddai'n rhaid iddynt gyflawni tasgau gweinyddol diangen. Roedd eraill wedi tynnu sylw at bwerau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol o dan y gyfraith bresennol i gasglu data ar ddarpar etholwyr, gan nodi y byddai dyletswydd ychwanegol ar yr awdurdod lleol yn ddiangen gan fod darpariaethau presennol yn caniatáu ar gyfer casglu data etholiadol yn briodol.

Thema gyffredin ar draws nifer o ymatebion oedd sicrhau diogelwch data etholwyr. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod hyder yn y broses o gasglu, storio a defnyddio data etholiadol yn hollbwysig. Teimlai eraill fod angen mynd i'r afael â diffygion tybiedig presennol yn y system cyn ystyried rhannu data'n ehangach.

## C11. A oes unrhyw agweddau penodol ar gofrestru awtomatig y dylid eu treialu cyn symud tuag at gyflwyno system ledled Cymru?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 62



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Darparodd 36 o ymatebwyr wybodaeth ychwanegol ynghylch pa agweddau ar gofrestru awtomatig yr oedd angen eu treialu cyn cyflwyno hyn ledled Cymru gyfan. Gwnaed awgrymiadau penodol ynghylch sicrhau bod pobl ifanc a'r rheini sy'n 70 oed yn cymryd rhan yn y broses. Awgrymodd eraill fod deall y ffynonellau data gorau i gyfateb i'r nifer uchaf posibl o etholwyr yn rhan hanfodol o'r broses dreialu. Roedd diogelwch yn destun pryder i nifer o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Yn benodol, tynnwyd sylw at ddiogelwch data ac amddiffyn etholwyr agored i niwed fel agweddau pwysig ar unrhyw weithgarwch treialu.

Roedd rhanddeiliaid a oedd â phrofiad o weithio ym maes etholiadau yn awyddus i sicrhau bod unrhyw gynlluniau treialu yn canolbwyntio ar sut byddai'r broses canfasio bresennol yn rhyngweithio â chofrestru awtomatig ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol. Dylai gweithgarwch treialu sefydlu ffyrdd clir o sicrhau bod etholwyr a gweinyddwyr etholiadol yn gallu defnyddio dwy system wahanol.

**Hawdd ei Ddeall C4. Sut gallwn ni egluro i bobl eu bod nhw wedi cael eu cofrestru i bleidleisio gyda Chofrestru Awtomatig? A sut gallwn ni wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod bod eu gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: 6

Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ynghylch sicrhau bod pobl yn ymwybodol eu bod wedi cael eu cofrestru i bleidleisio. Roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu canllawiau cam wrth gam, anfon post uniongyrchol at etholwyr, hysbysebu a hefyd defnyddio cyfryngau digidol. Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio unrhyw gronfa ddata ar gyfer Cymru yn y dyfodol i sicrhau bod etholwyr yn cael eu cofrestru a'u hysbysu am hyn.

Dywedodd dau ymatebydd eu bod nhw yn erbyn cofrestru awtomatig.

**Hawdd ei Ddeall C5. Yn eich barn chi, ddylen ni ddileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau rydyn ni'n eu rheoli?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: 6

Roedd hanner y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofrestr agored ar gyfer yr etholiadau rydyn yn eu rheoli. Teimlai un o'r ymatebwyr hyn na ddylid byth werthu data personol etholwyr i drydydd partïon o dan unrhyw amgylchiadau ac y dylai data etholiadol fod yn gwbl gyfrinachol. Roedd hanner y rhai a ymatebodd yn anghytuno â'r cynnig.

**Addas i Bobl Ifanc C6. Sut hoffech chi gael gwybod eich bod wedi cael eich cofrestru i bleidleisio'n awtomatig a bod eich data personol yn ddiogel?**


Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 27

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod unrhyw un a oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn cael gwybod drwy lythyr yn uniongyrchol at yr etholwr. Teimlai rhai ymatebwyr hefyd y gellid defnyddio e-bost a neges destun i sicrhau bod etholwyr yn deall y broses gofrestru. Awgrymodd un ymatebwr y dylid defnyddio dulliau cyfathrebu ychwanegol ar ôl anfon llythyrau i sicrhau bod etholwyr wedi cael y negeseuon.

Roedd pedwar ymatebwr yn erbyn yr egwyddor o gofrestru awtomatig.

**C12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai myfyrwyr gael dewis cofrestru i bleidleisio wrth gofrestru yn y brifysgol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 68




Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r nod o gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru i bleidleisio drwy greu Protocolau Rhannu Gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a phrifysgolion.

Roedd y prif bryderon y tynnwyd sylw atynt yn yr ymatebion yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu'n briodol, yn ogystal ag annog myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio mewn ardal nad yw, o bosibl, yn gartref parhaol iddynt.

**C12a. A ddylid rhannu unrhyw ddata a ddarperir wedyn, drwy gyfundeb rhannu data, gyda Thîm Gwasanaethau Etholiadol yr Awdurdod Lleol perthnasol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 61



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

O'r 61 ymateb, roedd 32 o blaid y cynnig i Awdurdodau Lleol a phrifysgolion rannu data myfyrwyr, drwy Brococol Rhannu Gwybodaeth, ar ôl llenwi ffurflen gofrestru. Fodd bynnag, roedd 18 yn erbyn y cynnig, ac roeddent wedi tynnu sylw at y pryderon canlynol:

- Diogelu data a phryderon y gall awdurdod lleol werthu data
- Risg o dwyll a dyblygu ar y gofrestr etholiadol
- Dim ffydd yn y dull hwn

O'r rheini a ddywedodd nad oeddent yn gwybod, nodwyd bod sicrhau nad oedd pleidleisiau'n cael eu dyblygu a bod twyll etholiadol yn cael ei osgoi.

**Hawdd ei Ddeall C6. Ydych chi'n meddwl y dylai myfyrwyr gael cofrestru i bleidleisio pan maen nhw yn y brifysgol?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Saith

O'r saith ymateb, roedd pump yn cytuno y dylai myfyrwyr gael cofrestru i bleidleisio pan maen nhw yn y brifysgol. Roedd pryderon y ddau nad oedd yn cytuno yn canolbwyntio ar y cyfnod byr y mae myfyrwyr yn byw yn ardaloedd prifysgolion (ac felly dylent gael pleidlais bost yn eu cyfeiriad cartref) a sicrhau bod dull cadarn o osgoi dyblygu ar y gofrestr etholiadol os ydynt eisoes wedi cofrestru yn rhywle arall.


**Hawdd ei Ddeall C7. Ddylai gwybodaeth am fyfyrwyr prifysgol gael ei rhannu gyda'r Awdurdodau Lleol lle maen nhw'n byw?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Saith

O'r saith ymatebydd, roedd pedwar yn cefnogi'r cynnig i greu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a phrifysgolion i rannu data myfyrwyr ar ôl llenwi ffurflen cofrestru i bleidleisio. Roedd y pryderon a godwyd yn debyg i'r rhai a godwyd yng Nghwestiwn 6 yr Ymgynghoriad Hawdd ei Ddeall.

**Addas i Bobl Ifanc C7. Ydych chi'n meddwl bod gwella niferoedd cofrestru ymhlith myfyrwyr yn syniad da?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 37




Roedd 27 o'r ymatebwyr yn cytuno bod gwella cyfraddau cofrestru myfyrwyr yn syniad da, gan rymuso myfyrwyr i deimlo eu bod yn perthyn i'r ardal y maent yn astudio ynddi. Nodwyd y byddai hyn yn helpu i gau bylchau yng nghyfraddau cofrestru pobl ifanc nad ydynt (neu na allant) gofrestru pan fyddant yn 16 ac 17 oed..

## Pennod 4: Cryfhau Gweinyddu Etholiadol

### C13. Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol i Gymru?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 65



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Cafwyd 65 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 40 ohonynt o blaid – naw aelod o'r cyhoedd a 31 o sefydliadau neu gyrff cyhoeddus. O'r 25 ymateb a oedd yn erbyn, roedd 20 gan aelodau o'r cyhoedd a'r pump arall gan sefydliadau neu gyrff cyhoeddus.

Roedd y prif resymau a roddwyd dros beidio â chefnogi Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru yn cynnwys y gost bosibl a chynnydd tybiedig mewn biwrocratiaeth. Gwrthwynebiad arall oedd pryder y gallai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol herio annibyniaeth Swyddogion Canlyniadau ac ymyrryd â'u gallu i reoli etholiadau yn unol ag angen lleol a nodwyd. Fodd bynnag, cyfeiriodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig at fanteision posibl Bwrdd Rheoli Etholiadol o ran cefnogi Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol (yn enwedig pan nad ydynt yn brofiadol).

Roedd llwyddiant ymddangosiadol y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn yr Alban hefyd yn cael ei ystyried yn gyfiawnhad dros sefydlu bwrdd cyfatebol yng Nghymru, a allai, fel y nodwyd, ymgymryd â swyddogaethau presennol Bwrdd Cydlynu Etholiadol (WECB) anstatudol Cymru. Un fantais benodol Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru y tynnwyd sylw ati mewn ymatebion oedd darparu cefnogaeth i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar adeg o newid mawr mewn gweinyddu etholiadol gyda mwy a mwy o wahaniaethau rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau a gadwyd yn ôl.

### C14. Os ydych chi wedi rhoi Cytuno'n Gryf neu Cytuno i Gwestiwn 13, beth ddylai swyddogaethau'r Bwrdd fod?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 38

Roedd yr ymatebion yn nodi amrywiaeth eang o swyddogaethau posibl y dylai Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru ymgymryd â nhw. Nid yw'n syndod mai'r thema fwyaf cyffredin a oedd yn sail i'r rhan fwyaf o'r ymatebion oedd yr egwyddor o sicrhau bod etholiadau yng Nghymru yn cael eu rheoli'n dda a bod y rolau y mae'r Bwrdd Rheoli

Etholiadol yn yr Alban a WECB yng Nghymru yn eu cyflawni yn cael eu cyflwyno. Roedd dau ymateb yn awgrymu y dylai'r bwrdd fabwysiadu'r un swyddogaethau â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ar gyfer yr Alban, a dywedodd tri y dylai fod gan Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru swyddogaethau sy'n seiliedig ar gylch gorchwyl presennol WECB. Dywedodd wyth ymatebydd y gallai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol helpu i sicrhau dull gweithredu cydlynol o ran gweithgarwch etholiadol, a dywedodd naw y dylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol helpu i sicrhau cysondeb o ran rheoli etholiadol, a soniodd pump am hyrwyddo arferion da. Roedd cefnogi Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol, yn enwedig y rheini sydd newydd gael eu penodi neu sy'n ddibrofiad, yn thema drawsbynciol allweddol. Roedd hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer swyddogion etholiadol yn gysylltiedig yn agos â hyn – cafodd ei awgrymu mewn saith ymateb.

Awgrymodd chwe ymatebwr y dylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynnal a darparu gwybodaeth etholiadol, gyda'r cafeat y dylid bod yn ofalus i beidio â gorgyffwrdd â swyddogaethau presennol y Comisiwn Etholiadol.

### **C15. A ddylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gael pwerau i roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 51

O'r 51 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 33 yn cytuno, roedd 17 yn anghytuno ac nid oedd gan un ymatebydd farn. O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd 13 yn aelodau o'r cyhoedd ac roedd pedwar yn sefydliadau neu'n gyrrff cyhoeddus. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd saith yn aelodau o'r cyhoedd a 26 yn sefydliadau neu'n gyrrff cyhoeddus.


Roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig wedi rhoi awgrymiadau ymarferol, yn cynnwys y dylai unrhyw gyfarwyddyd gael ei ragflaenu gan ymgynghoriad neu y dylid ei greu ar y cyd â Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol neu y dylent gael rhywfaint o ddisgresiwn. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod cyfarwyddyd yn gyfle i sicrhau arferion da cyson. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon y dylai aelodau'r Bwrdd fod â digon o wybodaeth a phrofiad i'w galluogi i wneud penderfyniadau priodol wrth gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau.

O'r rheini a oedd yn erbyn y cynnig, roedd dau yn awgrymu y gallai cyfarwyddyd fod yn her i'r broses o wneud penderfyniadau'n lleol a gallu Swyddogion Canlyniadau i benderfynu beth sy'n gweithio orau yn eu hardal eu hunain. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cael pŵer cyfarwyddo ar gyfer etholiadau rhanbarthol, ond nid ar gyfer etholiadau lleol.



## C16. A ddylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gael y pŵer i roi cyngor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynghylch cyflawni eu swyddogaethau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 54



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd 33 yn cytuno y dylai fod gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol y pŵer i roi cyngor, roedd 13 yn anghytuno ac roedd wyth yn dweud nad oeddent yn gwybod neu nad oedd ganddynt farn ar y pwnc. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd chwech yn aelodau o'r cyhoedd a 27 yn sefydliadau neu'n gyrrff cyhoeddus. O'r 13 a oedd yn anghytuno, roedd 12 yn aelodau o'r cyhoedd ac roedd un yn sefydliad/corff cyhoeddus.

Nodwyd y potensial i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol roi cyngor i hyrwyddo a chefnogi dull cyson o weinyddu etholiadol, ond roedd tri ymatebydd yn rhannu pryderon y dylid bod yn ofalus wrth sicrhau bod aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn ddigon gwybodus a phrofiadol i roi cyngor mewn ffyrdd nad ydynt yn wrthgynhyrchol. Roedd tri ymatebydd hefyd wedi rhybuddio na ddylid rhoi cyngor a allai ddyblygu neu wrth-ddweud cyngor a roddwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

## C17. Beth yw eich barn am bwy ddylai fod yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a sut y dylid eu penodi?


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 57

Roedd 16 o'r ymatebion yn awgrymu penodi swyddogion etholiadol (naill ai Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Canlyniadau Etholiadol neu weinyddwyr etholiadol) i Fwrdd Rheoli Etholiadol Cymru, neu'n argymhell y dylai ei aelodaeth adlewyrchu aelodaeth Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban neu'r WECB sydd â nifer sylweddol o swyddogion etholiadol. Roedd pum ymatebydd wedi cyfeirio'n benodol at y ffaith y dylai'r broses benodi fod yn dryloyw, ac y dylid sicrhau bod gan aelodau ddigon o wybodaeth a phrofiad i gyflawni eu swyddi. Roedd profiad yr unigolion a benodwyd yn thema gyson yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag un yn nodi bod angen i aelodau'r bwrdd allu ennyn hyder mewn Swyddogion Canlyniadau ac ymgeiswyr/asiantau etholiadol ac felly byddai angen profiad helaeth nid yn unig o'r ddeddfwriaeth berthnasol ond hefyd o ran rheoli etholiadol ymarferol.

Cododd tri ymatebydd y mater o sicrhau aelodaeth amrywiol ac roedd galwadau hefyd i aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gynnwys cynrychiolwyr o'r Trydydd Sector ac aelodau o'r cyhoedd. At ei gilydd, awgrymwyd amrywiaeth eang o gynrychiolwyr gan gynnwys llywodraethau lleol a chenedlaethol, academyddion, aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol a gwleidyddion. Rhoddodd tri ymatebydd arall farn wahanol am gynnwys gwleidyddion, ac roeddent yn galw i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn anwleidyddol neu beidio â chynnwys gwleidyddion. Roedd tri arall yn galw am amodau penodol ynghylch penodi gwleidyddion a dim ond un yn awgrymu cynnwys aelodau o bleidiau gwleidyddol.

**C18. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i roi mwy o sicrwydd etholiadol drwy ymestyn yr amser statudol pan na fydd modd cyhoeddi unrhyw adroddiadau adolygiad etholiadol terfynol ac na fydd modd gwneud unrhyw orchmynion adolygiad etholiadol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 61



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i ymestyn yr amser statudol pryd na ellir cyhoeddi unrhyw adroddiadau adolygiad etholiadol terfynol ac ni ellir gwneud unrhyw orchmynion adolygiad etholiadol. Roedd 64% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, a 36% yn anghytuno.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r dull hwn yn darparu eglurder a phroses glir i'w dilyn. Roedd sylwadau eraill a gafwyd yn awgrymu y byddai'n caniatáu i systemau gael eu sefydlu'n gynharach cyn pob etholiad a byddant yn rhoi mwy o sicrwydd i weinyddwyr ac ymgyrchwyr etholiadol cyn etholiadau llywodraeth leol sydd wedi'u trefnu.

Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebydd y gallai'r dull hwn ei gwneud yn llawer anoddach gweithredu adolygiadau etholiadol sy'n hollbwysig o ran atebolrwydd, a dywedodd un arall y dylid hefyd ystyried dyddiad gweithredu'r newidiadau a'r effaith ar etholiadau.

**C19a. Ar ba bwynt yn y cylch etholiadol y dylid atal Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) rhag cyhoeddi adroddiadau adolygiadau etholiadol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 57



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn amhendant. Dywedodd 35% y dylid atal y Comisiwn rhag cyhoeddi adroddiadau adolygiadau etholiadol o fewn deuddeg mis i etholiad, gyda 31% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn ffafrio 15 mis a 33% yn dweud nad oedd ganddynt ffafriaeth.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys y farn y byddai 12 mis yn galluogi pawb y gallai'r newidiadau effeithio arnynt i reoli'r broses newid yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn unol â gofynion statudol. Gallai'r cyfnod arfaethedig hwy o 15 mis gyfyngu'n sylweddol ar yr amser sydd ar gael i'r Comisiwn gynnal pob un o'r 22 adolygiad etholiadol prif ardal, y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu cwblhau ar hyn o bryd ym mhob cyfnod adolygu 10 mlynedd.

**C19b. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn, cyn belled ag y bo'n bosibl, orfod trefnu adolygiadau etholiadol o fewn dwy flynedd i gwblhau adolygiad cymunedol?**


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 49

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig hwn gyda mwy na hanner yr ymatebwyr a roddodd ateb pendant yn cytuno y dylid trefnu adolygiadau etholiadol o fewn dwy flynedd i gwblhau adolygiad cymunedol. Roedd ymatebwyr yn cytuno ei bod yn rhesymegol cael adolygiad cymunedol cyn adolygiad etholiadol ac yn synhwyrol i drefnu adolygiadau etholiadol o fewn dwy flynedd i adolygiad cymunedol.

Awgrymodd rhai unigolion y byddai'n ddefnyddiol pe bai mwy o eglurder ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried mewn adolygiad etholiadol. Gofynnodd un ymatebydd sut y byddai'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â rhaglen deng mlynedd y Comisiwn, ac awgrymodd ymatebydd arall bod dwy flynedd yn gyfnod rhy hir ar gyfer cynnal adolygiad cymunedol a chynigiodd gyfnod o hyd at chwe mis. Roedd un ymatebydd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried safbwyntiau Swyddogion Canlyniadau cyn gwneud newidiadau.

## C20. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnigion a awgrymir ar gyfer pennu'r cyfnodau mwyaf ar gyfer adolygu a phenderfynu?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 50



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid pennu'r cyfnodau mwyaf ar gyfer adolygu a phenderfynu, gyda 72% yn cytuno â'r cynnig. O'r rhain, roedd 50% yn rhanddeiliaid a 22% yn aelodau o'r cyhoedd. O'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd 24% yn aelodau o'r cyhoedd a dim ond 4% yn rhanddeiliaid.

Dywedodd y rhai o blaid bod hyn yn cadw amserlen glir a bod gweithredu cyfnodau adolygu mwyaf yn caniatáu digon o amser i weinyddwyr a phleidiau gwleidyddol baratoi'n effeithiol cyn etholiad. Awgrymodd ymatebwyr y byddai hyn yn sicrhau bod y data a ddefnyddir ar ddechrau proses adolygu yn dal yn berthnasol drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai amserlenni caeth leihau hyblygrwydd y Comisiwn o ran sut mae'n cynnal adolygiadau. Roedd rhai ymatebwyr yn glir bod angen ystyried amseriad digwyddiadau etholiadol heb eu trefnu.

## C21. Beth yw eich barn ynghylch a ddylid cynnwys pŵer mewn deddfwriaeth i ohirio cynnal adolygiadau etholiadol?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 43


Nid oedd bron i hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno nac yn anghytuno. O'r rhai a oedd wedi nodi eu dewis, roedd y mwyafrif o blaid cynnwys pŵer i ohirio cynnal adolygiadau etholiadol.

Roedd y rheini a oedd o blaid yn credu bod hwn yn opsiwn synhwyrol ac yn awgrymu na ddylid cyfyngu adolygiadau gohirio i argyfyngau iechyd y cyhoedd yn unig. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn cynnig, pan fydd adolygiad yn cael ei ohirio a'i aildechrau, na ddylai cwblhau'r adolygiad hwnnw fod yn destun cyfyngiadau amser y cyfnod adolygu mwyaf. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai'r dull hwn yn dod â chadernid y mae mawr ei angen, a'r gallu i dimau etholiadau ddelio â sefyllfaoedd fel etholiad dirybudd.

Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylai'r Llywodraeth ymyrryd ag annibyniaeth a didueddrwydd prosesau o'r fath gyda phrosesau ymgynghori electronig effeithiol i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl gan y cyhoedd.

## **C22. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor o gael rhestr gyffredin estynedig o ymgynghoreion gorfodol ar gyfer pob rhan o'r broses adolygu etholiadol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 52



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Roedd bron 70% yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r egwyddor o gael rhestr gyffredin, estynedig o ymgynghoreion gorfodol. O'r rhain, roedd 50% o'r ymatebwyr yn rhanddeiliaid a 19% yn aelodau o'r cyhoedd. O'r bron 31% a oedd yn anghytuno, roedd 27% yn aelodau o'r cyhoedd a dim ond 4% yn rhanddeiliaid.

Roedd y rheini a oedd yn cytuno yn awgrymu y byddai'n rhoi cydbwysedd barn, ac roedd eraill yn credu y gallai ddarparu gwybodaeth graff a sicrhau bod y broses yn cyrraedd cynifer o randdeiliaid â phosibl, a ddylai fod yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth.

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno â'r egwyddor yn awgrymu y gallai cynnwys ymgynghoreion gorfodol arwain at broses fwy beichus.

**C23. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cryfhau'r gofynion i ymgysylltu â phleidleiswyr cymwys fel rhan o'r broses adolygu etholiadol, gan gynnwys mewn perthynas ag enwau wardiau?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 52



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn, roedd 81% yn cytuno y dylid cryfhau'r trefniadau, ac roedd 19% yn anghytuno.

Roedd y rheini a oedd o blaid yn teimlo bod angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl a'u hannog i gymryd rhan yn y broses etholiadol. Awgrymodd eraill fod newidiadau diweddar wedi arwain at ddryswch a dywedodd y dylid ystyried barn etholwyr wrth ystyried newidiadau i drefniadau etholiadol a threfniadau ffiniau, gan gytuno y bydd y dull arfaethedig yn caniatáu hyn. Roedd ymatebwyr hefyd yn cynnwys yr angen am ymgyrch i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i godi ymwybyddiaeth.

Fodd bynnag, roedd un ymatebydd o'r farn bod y mesurau presennol yn ddigonol ac yn fathemategol gymesur, a oedd yn bwysig yn ei farn ef, ac roedd ymatebydd arall o'r farn ei fod yn ddrud ac yn ddiangen.

**C24. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion i ddiwygio ac ymestyn yr ystyriaethau y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu cymryd wrth benderfynu ar drefniadau etholiadol sy'n sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hwylus, gymaint ag y bo modd?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 47



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd 77% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio ac ymestyn yr ystyriaethau y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth benderfynu ar drefniadau etholiadol.

Teimlai ymatebwyr y gallai hyn ddarparu ffiniau mwy cadarn, ond nid oeddent o'r farn mai dyma oedd y ffactor pwysicaf. Roedd ymatebion eraill yn tynnu sylw at y pwyslais presennol ar gymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor ac yn awgrymu ei fod wedi dyddio ac y gallai cynnwys ffactorau eraill arwain at adolygiadau sy'n adlewyrchu cymunedau'n well.

Awgrymodd rhai ymatebwyr na fyddai'r dull hwn yn gwneud gwahaniaeth, ac roedd eraill yn tynnu sylw at gostau.

**C25. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal ymgynghoriad pellach pan nad yw argymhelliad yn ei adroddiad adolygu terfynol arfaethedig yn un o'r opsiynau yr ymgynghorodd arno yn ei adroddiad drafft?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 50

Roedd 50% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cynnal ymgynghoriad pellach, roedd 20% yn anghytuno a 30% heb ateb.

Awgrymodd un ymatebydd y gallai ychwanegu cam ymgynghori arall fod yn anodd o ran amserlen yr adolygiad cyffredinol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r Comisiwn benderfynu a oes angen ymgynghoriad ategol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r adroddiad gynnwys esboniad yn nodi'r rhesymeg dros gynnwys unrhyw argymhelliad nad oedd wedi bod yn destun ymgynghoriad. Tynnodd un ymatebydd sylw at oblygiadau cost ymgynghori pellach.

**C26. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i alluogi Gweinidogion Cymru i fynnu bod y Comisiwn yn ailedrych ar ran o adolygiad etholiadol cyn gwneud gorchymyn adolygiad etholiadol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 48

Roedd llai na 50% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn wedi mynegi barn bendant am y cwestiwn hwn, gyda gweddill yr ymatebwyr yn dewis peidio ag ateb neu ddweud nad oeddent yn gwybod. O'r rheini a roddodd ymateb pendant, roedd 40% yn cytuno â'r cynnig, ac roedd 60% yn anghytuno.

Dywedodd y rhai a oedd o blaid y cynnig y gallai fod amgylchiadau lle byddai'r dull hwn yn briodol, er enghraifft, lle'r oedd data a ddarparwyd am yr etholwyr neu boblogaethau'r dyfodol ar gyfer adolygiad yn anghywir.

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn teimlo, er mwyn cynnal annibyniaeth y Comisiwn, na ddylai Gweinidogion Cymru ymyrryd ac y dylent gael

cyfranogiad cyfyngedig yn unig, neu gallai leihau didueddrwydd, gwrthrychedd ac annibyniaeth yr adolygiadau ffiniau.


### **C27. A ddylid ystyried unrhyw newidiadau eraill i'r broses adolygiad etholiadol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 35

Roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu gwaith allgymorth i dargedu pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, i sicrhau cronfa ehangach o bleidleiswyr ac i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth. Roedd unigolyn arall wedi awgrymu cynnal gweminarau i helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall bwriad yr adolygiad a sut y gellir ymateb iddo. Roedd un ymatebydd yn argymhell alinio â phrosesau yn Lloegr.

### **C28. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid egluro'r cyfnod sylwadau o chwe wythnos yn y ddeddfwriaeth?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 43



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Yn gyffredinol, roedd pobl o blaid y cynnig hwn gyda bron i 77% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cynnwys eglurhad o'r cyfnod chwe wythnos yn y ddeddfwriaeth.

Roedd sylwadau o blaid yn cynnwys bod y dull hwn yn cael ei groesawu ac y bydd yn rhoi eglurder o ran canllawiau a chysondeb yn y broses adolygu. Ystyriwyd hefyd y byddai'r dull yn darparu amserlen glir i'w dilyn fel rhan o'r broses adolygu.

Roedd rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am hyd y cyfnod ei hun, gan awgrymu ei fod yn rhy fyr ac y byddai cynrychiolaeth deg wythnos yn helpu rhanddeiliaid yn well ac yn rhoi digon o amser i ymateb i'r argymhellion.



**C29. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod hwn cyn cymryd unrhyw gamau i gyfarwyddo'r Comisiwn i wneud gwaith pellach neu weithredu, addasu neu beidio â gweithredu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad argymhellion terfynol?**


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 41

Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig hwn. Awgrymodd ymatebwyr y dylai Gweinidogion orfod ystyried pob sylw sy'n codi pwyntiau a phryderon newydd ynghylch argymhellion a dderbyniwyd o ganlyniad i'r broses adolygu.

Teimlai rhai ymatebwyr y gallai caniatáu i Weinidogion ymyrryd leihau didueddrwydd a gwrthrychedd adolygiadau, ac roedd eraill yn dweud, gan fod y Comisiwn yn gorff annibynnol, y dylai fod yn rhydd rhag unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

**C30. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diddymu'r gofynion cyfreithiol ar y Comisiwn i ddarparu copïau caled o ddogfennau, ac eithrio pan wneir cais amdanynt?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 49




Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd 67% o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno y dylid diddymu'r gofyniad i'r Comisiwn ddarparu copïau caled o ddogfennau. Dywedodd ymatebwyr y bydd hyn yn arbed amser, costau ac yn cefnogi'r strategaeth carbon niwtral. Roeddent hefyd yn awgrymu y byddai'n arwain at lai o waith dosbarthu adroddiadau i lyfrgelloedd ac adeiladau cynghorau. Dywedodd ymatebwyr eraill y dylid ystyried ble mae copïau electronig yn cael eu storio.

Roedd 33% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, gan dynnu sylw at faterion hygrychedd, ac allgáu digidol. Roeddent yn awgrymu y gallai fersiynau electronig gael eu haddasu a gallent wthio rhan o'r grŵp etholiadol i'r cyron.

### C31. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnigion ar gyfer newid deddfwriaethol mewn perthynas ag adolygiadau cymunedol?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 44



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd tri chwarter yr ymatebwyr a fynegodd ffafriaeth yn cytuno â'r cynnig hwn, gyda rhai yn pwysleisio'r angen i gymunedau gael eu cynnwys yn llawn ac i'w barn gael ei hystyried yn weithredol. Teimlwyd y byddai gweithdrefn a methodoleg i'w dilyn yn cefnogi'r gwaith o reoli adolygiadau'n effeithiol ac yn briodol ac yn dod â chysondeb i'r broses.

Tynnodd ymatebwyr a oedd yn anghytuno sylw at effaith adolygiadau, gan adlewyrchu'r ffaith ei bod yn cymryd amser i dimau bach gynnal adolygiad cymunedol.


### C32. Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar sut y gellid gwella'r broses o gynnal adolygiadau cymunedol yn eich barn chi.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 23

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd ymatebwyr yn cynnig bod safoni'n angenrheidiol ynghyd ag ymgysylltu gwell. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys ystyried cymunedau trefol/gwledig, lleoliad daearyddol a materion sy'n effeithio ar y gymuned, ynghyd â darparu arweiniad a chyfeiriad clir, gan gynnwys amserlen neu gynllun i'w ddilyn. Awgrymodd ymatebwyr hefyd fod Adolygiadau Cymunedol yn haeddu mwy o sylw wedi'i gyfeirio at ddaearyddiaeth economaidd a chymdeithasol yr ardal.

**C33. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio trefniadau adolygu ffiniau atfor i gynnwys y gallu i'r Comisiwn gynnal adolygiadau sy'n ymwneud â mwy nag un ardal llywodraeth leol ac ehangu a chwtdogi ffiniau atfor mewn un broses adolygu? A ddylid cynnwys y trefniadau hynny yn yr un gorchymyn adolygu?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 33



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Mynegodd llai na 50% o'r ymatebwyr farn bendant i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a oedd wedi gwneud hynny, roedd 67% yn cytuno y dylid diwygio'r trefniadau. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cefnogi unrhyw broses adolygu ar draws ffiniau'r môr sy'n cael ei chynnal fel un broses adolygu, ac y dylai hyn fod yn seiliedig ar ddarpariaeth statudol addas.

O'r 34% a oedd yn anghytuno, roedd rhai o blaid cadw'r trefniadau presennol, lle mae pob ardal yn destun ei hadolygiad ei hun, yn hytrach na chynnal un adolygiad ar gyfer pob maes.

**C34. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i drosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i'r Comisiwn?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 50

O'r ymatebwyr a roddodd eu barn, roedd ychydig dros hanner yn cytuno y dylid trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i'r Comisiwn gan y byddai'n arwain at weithio'n fwy effeithlon gydag awdurdodau lleol a darparu mwy o dryloywder yn y swyddogaethau sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol.

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno yn tynnu sylw at gyfrifoldebau ar wahân y ddau gorff ac yn awgrymu y byddai cadw'r naill a'r llall yn sicrhau mwy o atebolrwydd ac yn osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau.

**C35. Ydych chi'n cytuno y dylid diddymu swyddogaethau sy'n ymwneud â phenderfynu ar gyflogau prif weithredwyr, ac nid eu trosglwyddo?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 43

Nid oedd 54% o'r ymatebwyr wedi rhoi ateb pendant ar gyfer y cwestiwn hwn. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd 38% yn cytuno y dylid diddymu'r swyddogaeth hon, gyda rhai'n dweud y dylid ymddiried yn y Cynghorau i bennu eu strwythur cyflogau eu hunain ac y dylai fod yn fater i'w benderfynu'n lleol.

Doedd gan 27% o'r atebion ddim barn benodol ar hyn ac roedd ymatebion eraill yn nodi ei fod yn fater i Lywodraeth Cymru, heb unrhyw sylw penodol. Amlygodd un sylw y dylid cael amser arweiniol rhwng deddfiad unrhyw ddeddfwriaeth newydd a'i ddod i rym, tra bod un arall wedi cefnogi'r newid hwn ar y sail bod gofynion statudol ynghylch polisi cyflog a thâl Prif Swyddog Gweithredol eisoes ar waith i sicrhau priodoldeb a chraffu gwleidyddol.

**C36. Beth yw eich barn am y syniad y dylid creu pwerau newydd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch taliadau parasiwt i gynghorwyr?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 49

Nid oedd dros hanner y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn wedi ateb y cwestiwn hwn neu'n credu y byddai angen rhagor o wybodaeth arnynt er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus.

O'r rhai a nododd ffafriaeth, roeddent yn debyg o ran niferoedd. Roedd 38% yn gwrthwynebu'r taliadau hyn gyda rhai yn ategu eu barn gyda sylwadau ynghylch gwerth cynghorwyr. Yn ogystal, cafwyd nifer o sylwadau am gwmpas unrhyw gynllun yn y dyfodol a'i berthnasedd i gynghorwyr cymuned a thref.

Roedd 35% yn cefnogi'r taliadau hyn. Roedd rhai o'r safbwyntiau'n cynnig awgrymiadau ynghylch hyd y taliadau, pryd y dylai taliadau ddechrau, a'r cyfraniad y gallai'r dull hwn ei gael ar annog amrywiaeth mewn democratiaeth. Awgrymodd sylwadau eraill fod mwy o fanylion i'w gynnwys yn ymwneud â'r cwestiwn hwn cyn y gellid rhoi ateb gwybodus. Nododd ymateb arall y dylid gwneud neu drafod darpariaethau o'r fath mewn contract cyflogaeth ar y dechrau a'i ail-drafod ar unrhyw newid amgylchiadau. Roedd un sylw yn cynnig bod angen i gyllid y trefniadau hyn ar gyfer prif awdurdodau fod yn ei le cyn iddyn nhw ddod i rym neu mae Llywodraeth Cymru/Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol/ Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am y trefniadau hynny a'r taliadau i gyn-gynghorwyr. Roedd ymateb arall yn cydnabod y dylai fod cysondeb ar draws pob lefel o gynrychiolaeth gyhoeddus.

**C37. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i Gymru gynnal un fframwaith rheoleiddio ar gyfer cyllid gwleidyddol ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig yng Nghymru?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 38

Roedd ymatebwyr o blaid ein cynnig i atgynhyrchu'r newidiadau i reolau cyllid yr ymgyrch a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022. Roedd amrywiaeth barn ymysg aelodau o'r cyhoedd. Roedd 50% o'r 18 rhai a oedd wedi ymateb o blaid, 34% yn dweud eu bod yn gwrthwynebu ac nid oedd y gweddill wedi rhoi eu barn ar y cynigion hyn. O'r saith ymatebydd a ddywedodd eu bod yn gwrthwynebu, dywedodd dau y dylai Cymru ddilyn dull gweithredu'r DU, ac roeddent o blaid ein cynnig.

O'r 20 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y 18 a fynegodd farn i gyd o blaid ein cynnig. Roedd dau ymatebydd yn gosod amod ar eu cefnogaeth drwy gynnig rhagor o newidiadau i reolau neu gyfeirio at allu Llywodraeth Cymru i anghytuno â mesurau'r DU.

### **C38. Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y mesurau penodol sy'n cael eu hystyried ynghylch cyllid gwleidyddol.**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 18

Mae sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'u cynnwys yn y testun o dan Gwestiwn 37.

### **C39. Pa fathau o ddatblygiadau mewn gweinyddu etholiadol fydddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu treialu yn y dyfodol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 45

Rhoddodd tua 40% o'r ymgynghoreion ymateb i'r cwestiwn ar gynlluniau peilot yn y dyfodol. Roedd y mwyafrif helaeth yn canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o atebion digidol i hwyluso gwell ymgysylltiad ymysg pleidleiswyr. Lle cyfeiriwyd at hyn, gwnaed yr awgrymiadau i dreialu:

- Pleidleisio electronig
- Cyfrif electronig
- Cofrestrau digidol
- Pleidleisio ar-lein
- Gwybodaeth ddigidol well i helpu pleidleiswyr i ddeall dros bwy y gallant bleidleisio

Roedd ymatebwyr eraill yn canolbwyntio ar weithgarwch treialu wedi'i dargedu at naill ai annog mwy o bobl i gymryd rhan neu wneud etholiadau'n fwy hygyrch i bleidleiswyr penodol. Yn benodol, roedd pwyslais ar gefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â democratiaeth yn ogystal â sicrhau bod pleidleiswyr ag anableddau yn gallu cael gafael ar wybodaeth ynghyd ag unrhyw fannau pleidleisio. Awgrymwyd hefyd bod gwell gwybodaeth ddigidol hygyrch ar gael i gefnogi gwell dealltwriaeth o brosesau etholiadol a'r ymgeiswyr mewn etholiadau penodol.

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylid treialu gweithgarwch sy'n ymwneud â systemau etholiadol a gweinyddu etholiadol. Yn yr achosion hyn, y cynlluniau peilot a awgrymwyd oedd:

- Defnyddio cynrychiolaeth gyfrannol i ethol aelodau etholedig

- Defnyddio systemau pleidleisio amgen i ethol aelodau etholedig
- Cofrestru etholwyr yn awtomatig
- Pleidleisio cynnar neu ymlaen llaw
- Cael manau pleidleisio mewn lleoliadau ar wahân i orsafoedd pleidleisio e.e. mewn archfarchnadoedd
- Caniatáu cofrestru ar ddiwrnod yr etholiad
- Pob etholiad pleidleisio drwy'r post
- Ehangu darpariaethau procsi brys

**C40. Sut gallem helpu i gael cymysgedd mwy amrywiol o awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn cynlluniau peilot yn y dyfodol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 39

Roedd nifer lai o ymatebwyr, tua 35%, wedi rhoi awgrymiadau ynghylch sut i annog cymysgedd mwy amrywiol o awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn cynlluniau peilot yn y dyfodol. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod amseroedd arwain hir ar gyfer unrhyw weithgarwch peilot a bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau er mwyn gallu paratoi'n ddigonol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid gwneud y system bresennol ar gyfer cynnig cynlluniau peilot yn symlach ac nid o reidrwydd yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Roedd cynigion eraill yn canolbwyntio ar sicrhau bod digon o gyllid ar gael i awdurdodau lleol gynnal y cynlluniau peilot ac, mewn rhai achosion, y gellid defnyddio cymhellion. Roedd un ymatebydd yn argymhell ymgysylltu â chynghorau cymuned, ac roedd un arall yn teimlo y gallai deddfu ar gyfer cynlluniau peilot fod yn opsiwn mwy priodol.

**C41. Beth yw eich barn am bŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru a fyddai'n eu galluogi i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol?**


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 47

Rhoddodd nifer tebyg o ymatebwyr sylwadau ar bwerau Gweinidogion Cymru i orfodi cynlluniau peilot fel y gwnaeth ar y ffyrdd o hwyluso ystod fwy amrywiol o awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau peilot. O'r rhai a ymatebodd, roedd 47% yn erbyn y cynnig ac roedd 19% o blaid.

Ar y cyfan, teimlai ymatebwyr na ddylai fod angen cynlluniau peilot grymus, a mynegodd nifer o randdeiliaid allweddol bryderon ynghylch dilysrwydd etholiad lle'r oedd awdurdod lleol wedi cael ei orfodi i dreialu gweithgarwch o ystyried y pwysau sydd ar Swyddogion Canlyniadau a'u staff. Cyfeiriwyd hefyd at ddiffyg adnoddau fel rheswm nad oedd gorfodi cynlluniau peilot yn syniad da, ynghyd â lefel y profiad sydd ei angen mewn timau etholiadol. O'r rhai a oedd o blaid y cynnig, ychydig o resymau a ddarparwyd ar wahân i'r ffaith y byddai'n hwyluso gwell ystod o awdurdodau a fyddai'n cymryd rhan.

## C42. A ddylai Swyddogion Canlyniadau orfod dilyn gofynion penodol o ran y Gymraeg pan gynhelir etholiadau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 57



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n weddol gyfartal, ond roedd mwy yn erbyn nag o blaid gosod gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, yn enwedig gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd 24 o'r ymatebwyr o blaid, ac roedd 28 yn erbyn. Roedd pump yn ansicr. O'r rheini a oedd o blaid, roedd naw yn unigolion ac roedd 15 yn sefydliadau rhanddeiliaid. O'r rheini a oedd yn erbyn, roedd 17 yn unigolion, roedd chwech yn sefydliadau a phump yn ddienw.

Roedd y prif adborth yn canolbwyntio ar gydraddoldeb a dichonolrwydd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â phwysigrwydd trin y Gymraeg yn gyfartal, ond nid oeddent o blaid cyflwyno gofynion cyfreithiol newydd yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau. Roedd hyn oherwydd y farn bod Swyddogion Canlyniadau eisoes yn gweithredu yn unol ag ysbryd gofynion y Gymraeg yn unol ag awdurdodau lleol, ac oherwydd gwrthwynebiad beichiau ychwanegol ar Swyddogion Canlyniadau. Awgrymodd rhai ddull gweithredu hyblyg wrth gynnal etholiadau dwyieithog. Ateggodd ymatebwyr y dylai cefnogaeth fod ar gael i Swyddogion Canlyniadau, er enghraifft cyfieithydd/cyfieithydd ar y pryd, pan na all Swyddogion Canlyniadau ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog eu hunain, er enghraifft, wrth ddatgan y canlyniadau.

## C43. A oes unrhyw fathau o wasanaethau yr hoffech chi weld Swyddogion Canlyniadau yn eu darparu yn y Gymraeg?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 32


Yn fras, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi Swyddogion Canlyniadau sy'n darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd 17 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 12 yn erbyn ac roedd tri yn ansicr. O'r rheini a oedd o blaid, roedd pedwar yn aelodau o'r cyhoedd ac 13 yn sefydliadau. O'r rheini a oedd yn erbyn, roedd wyth yn unigolion ac un yn sefydliad.

Roedd yr adborth eto'n canolbwyntio ar gydraddoldeb a dichonolrwydd. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio y dylai'r Gymraeg gael ei thrin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau etholiadol. Roeddent yn dweud bod yn rhaid i ddogfennau fod yn

ddwyieithog, pan fo hynny'n ymarferol. Roedd gohebiaeth ysgrifenedig ac ar lafar, a'r datganiad o ganlyniadau, yn cael eu hystyried yn enghreifftiau o wasanaethau y disgwylir iddynt gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### C.44 Ydych chi erioed wedi cael unrhyw broblem sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ystod etholiadau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 50



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Dyweddod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau yn ymwneud â'r Gymraeg mewn etholiadau.

Roedd yr adborth yn canolbwyntio ar hygyrchedd gwasanaethau yn Gymraeg, er enghraifft, nid yw'r Systemau Rheoli Etholiadol yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Codwyd materion yn ymwneud â diffyg templedi safonol yn Gymraeg i sicrhau bod statws cyfartal i'r ddwy iaith. Dywedwyd hefyd nad yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog bob amser.

Roedd ymatebwyr hefyd yn canolbwyntio ar ddichonoldeb, ac eto fel yng nghwestiwn 42, awgrymwyd dull gweithredu hyblyg pan oedd yn rhaid darparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Er enghraifft, dywedodd staff etholiadol fod recriwtio staff pleidleisio sy'n siarad Cymraeg yn aml yn heriol mewn rhai ardaloedd.



**Hawdd ei Ddeall C8. Yn eich barn chi, ddylai Swyddogion Canlyniadau ddilyn rhai rheolau o ran defnyddio'r Gymraeg?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: 6

Roedd ymatebwyr o'r farn bod hyn yn ddiangen, ond dylai Swyddogion Canlyniadau gael cymorth gan siaradwyr Cymraeg a chyfieithwyr pan fo angen.

**Hawdd ei Ddeall C9. Yn eich barn chi, oes unrhyw wasanaethau y dylai Swyddogion Canlyniadau fod yn eu darparu yn Gymraeg?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Chwech

Nid oedd ymatebwyr yn cyfeirio at unrhyw wasanaeth penodol, ond roeddent yn ailadrodd y dylai gwasanaethau fod yn ddwyieithog. Cafwyd chwech o ymatebion, tri ohonynt yn erbyn, a dywedodd un ymatebydd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol mewn ardal ddi-Gymraeg.

**Hawdd ei Ddeall C10. Ydych chi wedi cael unrhyw broblem wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod etholiadau?**


Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Chwech

Nid oedd unrhyw ymatebwyr wedi nodi unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn etholiadau. Cawsom chwe ymateb, ac roedd tri ohonynt yn dweud nad oedd y cwestiwn yn berthnasol gan nad oeddent yn byw mewn ardal Gymraeg ei hiaith neu nad oeddent yn siarad Cymraeg.

## Pennod 5: Adeiladu Iechyd Democrataidd

### C45. A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu ar gyfer llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein? Pa wybodaeth y dylid ei darparu ar y llwyfan a phwy ddylai ei gynnal?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 74



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd dros 55% o blaid darparu llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein gan Lywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr a oedd yn erbyn yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yn bennaf (11 allan o 20) ac roeddent yn cyfeirio at bryderon ynghylch cost a'r angen am fwy o gyfrifoldeb ar ymgeiswyr eu hunain i sicrhau bod etholwyr yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus.

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd o blaid yn cynnwys 13 aelod o'r cyhoedd, deg o fudiadau trydydd sector ac academyddion a sefydliadau â diddordeb arbennig yn y maes hwn. Mae'r gefnogaeth i'r ddarpariaeth yn cyd-fynd ag egwyddorion diwygio etholiadol ac mae symlrwydd a hygyrchedd gwybodaeth yn ffactorau sbarduno allweddol. Roedd yr ymatebion yn nodi y byddai'r llwyfan yn ffordd o ddarparu gwybodaeth well am ymgeiswyr a hefyd i ddarparu gwybodaeth am y system bleidleisio a'r prosesau cysylltiedig, er enghraifft beth i'w ddisgwyl mewn gorsaf bleidleisio.

O ran yr ymatebion ynghylch pwy ddylai gynnal y llwyfan, roedd yr ymatebwyr sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadol yn glir ac yn bendant yn eu barn nhw na ddylai Swyddogion Canlyniadau a thimau etholiadol fod yn rhan o'r broses sy'n ymwneud â gwybodaeth ychwanegol am ymgeiswyr, ac na ddylent gynnal y llwyfan. Ar wahân i hyn, roedd deuddeg o'r 16 ymatebydd a oedd wedi rhoi sylw penodol i'r pwynt hwn yn ffafrio corff annibynnol yn bennaf, fel Bwrdd Rheoli Etholiadol, neu'r Comisiwn Etholiadol i gynnal llwyfan gwybodaeth.

**C46. Pwy fyddai angen darparu gwybodaeth i lwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein, a sut byddai modd eu cefnogi i wneud hynny?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 46

Roedd amrywiaeth o ymatebion yn tynnu sylw at syniadau tebyg yn fras ynghylch pwy fyddai angen darparu gwybodaeth i unrhyw lwyfan, gan gynnwys ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, awdurdodau lleol gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau a thimau etholiadol.

Roedd yr ymatebion hefyd yn cyfeirio at ddarparwyr gwybodaeth presennol fel y Comisiwn Etholiadol, y Clwb Democratiaeth, a Chomisiwn y Senedd a'r angen i ddefnyddio adnoddau presennol lle bo hynny'n bosibl. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at yr angen i'r llwyfan gael ei gynhyrchu ar y cyd â phobl ifanc, pobl anabl ac eraill.

O ran cefnogaeth, teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r broses sy'n ymwneud â gwybodaeth am ymgeiswyr gael ei rhagnodi mewn deddfwriaeth gan gynnwys amserlenni, rheolau cynnwys, gofynion llun, gofynion cyflwyno ar-lein/ar bapur a gofynion o ran iaith. Dylid rhoi canllawiau safonol clir ar y fformat, cyngor ar sut y gellir ei ddarparu mewn fformatau hygyrch fel Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â chanllawiau gan y Comisiwn Etholiadol fel pethau i'w hystyried. Roedd rhanddeiliaid etholiadol yn dweud bod llawer iawn o ddata swyddogol eisoes yn bodoli y gellid manteisio arno ac adeiladu arno.

**C47. Beth ddylid ei wneud i annog pleidiau gwleidyddol i gynhyrchu deunyddiau hygyrch?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 44

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cydnabod bod angen i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth fwy hygyrch.

Teimlai llawer y byddai canllawiau a gwybodaeth glir am sut i gynhyrchu deunyddiau hygyrch gan sefydliad fel y Comisiwn Etholiadol yn gam cadarnhaol. Tynnwyd sylw at yr angen i weithio'n gydgyhyrchiol gyda sefydliadau cynrychioladol allweddol i nodi arferion gorau a chynhyrchu canllawiau.

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylai'r gyfraith fynnu bod pleidiau gwleidyddol yn cynhyrchu deunyddiau hygyrch.

**Hawdd ei Ddeall C11. A ddylai gwybodaeth fod ar gael ar-lein i helpu pobl gyda phleidleisio? Os felly, beth ddylai fod a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hynny?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Chwech

Daeth pump o'r chwe ymateb gan gynghorau tref a chymuned a oedd o blaid y cynnig, ac roedd tri o'r pum ymateb yn awgrymu mai prif gynghorau ddylai gynnal yr wybodaeth.


**Hawdd ei Ddeall C12. Beth ddylai gael ei wneud i wneud yn siŵr bod pleidiau gwleidyddol yn darparu gwybodaeth mewn ffyrdd y mae mwy o bobl yn gallu eu deall? Er enghraifft, mewn fformat Hawdd ei Ddeall.**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Chwech

Roedd yr ymatebion i hyn yn amrywio, ond nodwyd y dylid sicrhau bod fersiynau Hawdd Ei Ddeall ar gael yn ogystal â gosod canllawiau clir ar gyfer hygyrchedd.

**Addas i Bobl Ifanc C8. Rydyn ni eisiau gwella gwybodaeth i bawb, gan gynnwys pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu, er mwyn cael un lle ar-lein lle gall pobl ddod o hyd i'r hyn maen nhw eu hangen i ddatblygu canllawiau, fel bod gwybodaeth yn hawdd i'w darllen a'i deall. Ydych chi'n meddwl bod y rhain yn syniadau da?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 37



Roedd y rhan fwyaf o'r rhai ymatebodd i'r fersiwn Addas i Bobl o blaid y cynnig hwn, gyda 32 yn cefnogi'r cynnig. Mae'r rhesymau a nodwyd dros y gefnogaeth yn cynnwys gwella hygyrchedd gwybodaeth a gwneud pethau'n haws eu canfod ac yn dda i'r broses ddemocrataidd.

**C48. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r Swyddog Canlyniadau mewn etholiad datganoledig fod â dyletswydd i ddarparu unrhyw offer sy'n rhesymol fel ei bod yn haws i bobl anabl bleidleisio?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 54

O'r 54 a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 45 yn cytuno, roedd pedwar yn anghytuno ac roedd pump wedi gwneud sylwadau ond nid oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd 15 yn aelodau o'r cyhoedd a 30 yn

rhanddeiliaid. Roedd tri aelod o'r cyhoedd ac un rhanddeiliad yn anghytuno. Nid oedd pedwar aelod o'r cyhoedd ac un sefydliad yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd saith o'r ymatebion o blaid yn nodi bod y cynnig hwn yn cyd-fynd â'r darpariaethau a wnaed yn Neddf Etholiadau 2022 o ran etholiadau a gadwyd yn ôl. Daeth y saith ymateb hyn i gyd gan gyrff cyhoeddus neu sefydliadau sy'n gweithredu yn y maes gweinyddu etholiadol a oedd o'r farn y byddai'n fuddiol cael dull gweithredu cyson ar draws etholiadau datganoledig ac etholiadau a gadwyd yn ôl. Gan ganolbwyntio ar yr agweddau gweithredol, nododd dau ymatebydd yr heriau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion amrywiaeth eang o bleidleiswyr anabl ar draws nifer fawr o orsafoedd pleidleisio.

Roedd gan ddau sefydliad Trydydd Sector farn wahanol, ac roeddent yn nodi pryderon nad oedd y cynnig hwn yn mynd yn ddigon pell o ran sicrhau bod pobl anabl yn gallu arfer eu hawl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Mynegodd yr RNIB bryderon nad oedd y cynnig yn cynnwys unrhyw sicrwydd y byddai cymorth sain ar gael hyd yn oed pe bai pleidleiswyr dall neu rannol ddall yn gofyn amdano.

#### **C49. Pa gefnogaeth y dylid ei chynnig i sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau'n gallu cyflawni'r rôl honno'n effeithiol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 41


Roedd tair thema gyson yn yr atebion i'r cwestiwn hwn – canllawiau, cyllid a hyfforddiant. Cyfeiriodd naw ymatebydd at ganllawiau fel gofyniad. Nododd pedwar y dylai'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau, gyda thri ohonynt yn nodi y dylai fod yn unol â darpariaethau Deddf Etholiadau 2022 mewn perthynas ag etholiadau a gadwyd yn ôl. Roedd yr un tri hefyd yn nodi y dylid rhoi dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i roi sylw i'r canllawiau hyn. Dywedodd un ymatebydd yn benodol y dylid cynhyrchu'r canllawiau hyn ar y cyd â phobl anabl. Dylid nodi bod y Comisiwn Etholiadol, yn ei ymateb, wedi nodi "*Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gofyniad i Swyddogion Canlyniadau ddarparu offer rhesymol mewn gorsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau datganoledig, byddem yn darparu canllawiau ac enghreifftiau o arferion da i'w cefnogi i gyflawni'r ddyletswydd hon.*"

Roedd 20 ymateb yn sôn am gyllid neu adnoddau. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn nodi sut y gellid defnyddio'r cyllid ond roedd eraill yn fwy penodol – y byddai ei angen ar gyfer prynu, storio a chynnal a chadw offer yn ogystal ag ar gyfer hyfforddiant ychwanegol ac amser staff angenrheidiol. Nodwyd, o ganlyniad i ddarpariaethau tebyg yn Neddf Etholiadau 2022, y byddai Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i gefnogi Swyddogion Canlyniadau i fodloni'r gofynion hygyrchedd newydd ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl.

Nodwyd yr angen am hyfforddiant mewn 12 ymateb, gyda phedwar yn nodi y dylai hyn fod ar gyfer gweinyddwyr etholiadol, Swyddogion Canlyniadau ac ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio.

### C50. Ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru bennu mewn rheoliadau y math o gymorth y mae'n rhaid ei gynnig i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 54



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd 14 yn aelodau o'r cyhoedd a 11 yn rhanddeiliaid. Roedd deg aelod o'r cyhoedd a 12 rhanddeiliad yn anghytuno. Nid oedd dau aelod o'r cyhoedd a phum rhanddeiliad yn gwybod.

Dywedodd dau ymatebydd fod angen i bobl anabl wybod pa gymorth ac addasiadau rhesymol y gallant eu disgwyl neu ofyn amdanynt wrth bleidleisio, ac y byddant yn gallu arfer eu hawl i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.

Roedd pum ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn yn gwneud hynny ar y sail y dylid cael cysondeb o ran y dull gweithredu rhwng etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig o ran darparu offer ar gyfer etholwyr anabl. Roeddent yn ffafrio'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag etholiadau a gadwyd yn ôl, lle rhoddir dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i ddarparu'r offer y mae'n rhesymol ei ddarparu. Roedd un ymatebydd a oedd yn anghytuno yn poeni y gallai rheoliadau arwain at gau gorsafoedd pleidleisio sy'n methu â bodloni'r safonau gofynnol.

### C51. Yn eich barn chi, pa fath o gymorth ddylai gael ei gynnig i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 45

Roedd 17 o ymatebion yn nodi'r math o gymorth y dylid ei gynnig i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio. Dywedodd saith o'r rhain y dylai'r cymorth a gynnigir ddilyn canllawiau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a gadwyd yn ôl. Soniodd eraill am eitemau penodol o gyfarpar fel rampiau, bythau pleidleisio ar yr uchder cywir ar gyfer y rheini mewn cadeiriau olwyn, a darpariaeth sain ar gyfer pleidleiswyr dall a rhannol ddall. Galwodd RNIB yn benodol am ddarpariaeth sain ym mhob gorsaf bleidleisio yn ogystal â darpariaeth gyffyrddol gan nad oeddent yn credu ei bod yn bosibl gwybod trefn yr ymgeiswyr a restrwyd gan ddefnyddio'r

ddyfais bleidleisio gyffyrddol yn unig. Roeddent hefyd am i bobl ddall a rhannol ddall allu dod â'u chwyddwydrau a'u ffonau symudol eu hunain i orsafoedd pleidleisio.

Dywedodd tri ymatebydd fod angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl er mwyn penderfynu pa gymorth priodol y dylid ei gynnig mewn gorsafoedd pleidleisio.

Tynnodd tri ymatebydd sylw at y ffaith bod yr opsiwn o bleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy yn opsiwn ymarferol yn lle pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Roedd un ymatebydd wedi argymhell pleidleisio ar-lein.

**Hawdd ei Ddeall C13. Yn eich barn chi, ddylai Swyddogion Canlyniadau orfod gwneud yn siŵr bod yr offer iawn ar gael i helpu pobl anabl i bleidleisio?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Chwech

Roedd pump o'r chwe ymatebwr yn cytuno, ac roedd un yn ansicr.

**Hawdd ei Ddeall C14. Yn eich barn chi, ddylai Llywodraeth Cymru ddweud yn y gyfraith pa gefnogaeth ddylai fod ar gael i bobl anabl wrth bleidleisio?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Chwech

Cafwyd chwech o ymatebion, roedd dau yn cytuno a phedwar yn anghytuno.

**Hawdd ei Ddeall C15. Yn eich barn chi, pa fath o gymorth y mae pobl anabl ei angen pan maen nhw'n mynd i'r orsaf bleidleisio i bleidleisio?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Pump

Roedd tri ymateb yn canolbwyntio ar ofynion mynediad ffisegol (mynediad a symud mewn gorsafoedd pleidleisio) a help gyda darllen. Roedd un ymatebydd yn argymhell ymgysylltu â phleidleiswyr anabl, safbwynt a oedd yn cael ei rannu gan dri ymatebydd i'r prif ymgynghoriad. Roedd un ymateb yn tynnu sylw at anghenion penodol pleidleiswyr dall.

**Addas i Bobl Ifanc C9. Sut y gellir cefnogi pleidleiswyr anabl i bleidleisio'n gyfrinachol ac yn annibynnol?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 25

Roedd pedwar ymatebydd o'r farn bod trafodaethau gyda phobl anabl a'u sefydliadau cynrychioladol yn rhan bwysig o sicrhau bod pleidleiswyr anabl yn gallu pleidleisio'n annibynnol. Awgrymodd naw ymatebydd y dylid datblygu pleidleisio ar-lein/yn electronig a chyfeiriodd chwech at bleidleisio drwy'r post, ac roedd un yn awgrymu system symlach o bleidleisio drwy'r post.

Codwyd y mater o allu pleidleiswyr i ddeall yr wybodaeth a ddarperir iddynt a rôl gofalgwyr, rhieni ac eraill wrth ddarparu cymorth mewn pum ymateb. Yn benodol, mynegodd dau ymatebydd bryderon yn ymwneud â phleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy, lle gallai unigolion sy'n cynorthwyo pleidleiswyr anabl bleidleisio dros yr hyn y maent yn ei benderfynu sydd er budd gorau'r pleidleisiwr, ac nid o reidrwydd yn bwrw'r bleidlais fel y byddai'r person anabl yn ei wneud pe gallai bleidleisio'n annibynnol.

**C52. Yn ogystal â darpariaethau yn y Cwricwlwm i Gymru, a oes unrhyw fesurau eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith drwy'r system addysg i sicrhau y gall dysgwyr yng Nghymru gymryd rhan yn hyderus yn etholiadau Cymru?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 48

Roedd amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu cynrychioli wrth ateb y cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys cydnabod bod y Cwricwlwm i Gymru yn ddatblygiad cadarnhaol ac y dylid caniatáu amser iddo ymsefydlu. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at bwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid fel y Comisiwn Etholiadol, awdurdodau lleol, a phleidiau gwleidyddol y tu allan i ysgolion i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth i ddysgwyr. Soniwyd am yr angen am wersi ymarferol (e.e. sut i gofrestru, sut i fwrw pleidlais).

Awgrymodd rhai ymatebwyr yr angen i addysg ddinesig ymestyn y tu hwnt i ysgolion ac i grwpiau cymunedol ac mewn lleoliadau gydag oedolion sy'n dysgu.

**Addas i Bobl Ifanc C10. Beth arall allen ni ei wneud i gefnogi pobl ifanc i bleidleisio?**


Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 24

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr angen i ddarparu gwell addysg wleidyddol mewn ysgolion. Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at yr angen am well gwybodaeth i bleidleiswyr a mandadau cliriach gan wleidyddion.



**C53. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio'r diffiniad o drosedd etholiadol Dylanwad Gormodol a ddarperir gan adran 114A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ar gyfer etholiadau datganoledig?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 48



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Roedd cefnogaeth gref i foderneiddio iaith y drosedd dylanwad gormodol. Roedd 44 ymatebwr o blaid, a dim ond pedwar oedd yn erbyn.

Mae rhanddeiliaid allweddol sy'n cefnogi'r cynnig yn cynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Un Llais Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Gymdeithas Diwygio Etholiadol a'r WECB. Awgrymodd ymateb y Comisiwn Etholiadol y dylai'r drosedd wedi'i diweddarau fod yn unol â'r newidiadau a nodir yn Ndedf Etholiadau 2022. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys CLILC a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gweinyddwyr etholiadol a Swyddogion Canlyniadau yn cael gwarchodaeth benodol rhag cael eu bygwth a'u cam-drin.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno naill ai'n aelodau o'r cyhoedd neu'n gwrthod darparu categori. Roedd dadleuon nodweddiadol ar gyfer y rhai nad oeddent o blaid yn ymwneud â gwrthwynebiad i ddatganoli neu oblygiadau cost.

**C54. Ydych chi'n meddwl y bydd rhai neu bob un o'r camau gweithredu hyn a gynigir ac a ddisgrifir yn y Papur Gwyn yn helpu i gyfrannu at leihau achosion o gam-drin ymgeiswyr?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 52



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

O'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gallu rhoi barn ynghylch a fyddai'r gyfres o gynigion i leihau cam-drin ymgeiswyr yn llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gymedrol i'r cynigion hefyd ac roedd llai o ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynigion.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd o blaid y cynigion yn rhanddeiliaid mawr (Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, y Comisiwn Etholiadol, y Gymdeithas Diwygio Etholiadol). Roedd un rhanddeiliad o'r farn y dylai'r cynigion ar gyfer casglu tystiolaeth well ymgorffori'r materion hynny, gan fod cam-drin ymgeiswyr yn cael ei waethygu gan iaith a safbwyntiau gormesol. Awgrymodd ymateb arall gan rhanddeiliad, er bod angen tystiolaeth fwy penodol, na ddylid dal camau'n ôl nes y gellir casglu'r wybodaeth honno.

Yn ogystal â chytundeb cyffredinol i'r cynigion, cyfeiriodd dau ymateb yn benodol at yr angen am addewidion ymgyrchu cyn etholiadau mawr gydag un yn awgrymu gwerthusiad o Addewid Teg a Pharchus CLILC cyn ymrwymo i weithredu. Tynnwyd sylw at hyfforddiant a chynghor i ymgeiswyr fel agwedd bwysig ar ddiogelwch i ymgeiswyr.

Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at y camau y byddent yn eu cymryd i gefnogi swyddogion Un Pwynt Cyswllt awdurdodau'r heddlu i greu canllawiau i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr ar ddisgwyliadau'r ymgyrch. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i ymgeiswyr ar ôl iddynt gael eu henwebu. Tynnodd CLILC sylw hefyd at yr angen i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr fabwysiadu codau ymarfer. Tynnodd CLILC a dau rhanddeiliad arall sylw at y ffaith bod pwerau Swyddogion Canlyniadau ac awdurdodau lleol yn gyfyngedig yn y maes hwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynigion yn aelodau o'r cyhoedd gyda rhai gan rhanddeiliaid allweddol. O'r ymatebion hynny, awgrymodd un fod ymddygiad o'r math hwn yn cael ei ystyried yn rhan o fod yn ymgeisydd.

Rhannwyd y farn hon bod ymddygiad camdriniol yn cael ei ystyried yn rhan normal o fod yn ymgeisydd (ac yn aelod etholedig) hefyd yn cael ei rhannu mewn gweithdai a gynhaliwyd i drafod y cynigion. Yn gyffredinol, roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn y gweithdai o blaid y cynigion ac yn adlewyrchu themâu'r ymatebion i'r ymgyngoriad ysgrifenedig. Gwnaed pwyntiau ychwanegol am bwysigrwydd datrys yn lleol ac arweinyddiaeth i ddatrys problemau wrth iddynt ddod i'r amlwg. Awgrymodd cyfranogwyr y gweithdai hefyd y dylai'r gwaith gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**C55. Os ceisir cael eithriad o derfynau gwario ymgeiswyr ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â diogelwch, pa weithgareddau y dylid eu cynnwys yn yr eithriad hwnnw?**


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 30

Roedd awgrymiadau'r ymatebwyr yn cynnwys larymau personol, diogelwch y cartref a chlychau drws fideo, diogelwch ar gyfer mynychu digwyddiadau ac ymgyrchoedd, diogelwch ar sail technoleg yn ogystal â hyfforddiant diogelwch. Cynigiodd y

Comisiwn Etholiadol y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr esemptiad tebyg a ddarperir ar gyfer etholiadau'r Alban.

**C56. A fydd yr ychwanegiad a gynigir i'r geiriad safonol ar y ffurflen Datganiad am y Sawl a Enwebwyd yn cael yr effaith a ddymunir sef i leihau achosion o gam-drin, neu a fyddai mesurau gwahanol yn fwy effeithiol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 48



Dangosir gwrthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd gwrthwynebiad amlwg i'r cynnig hwn. Roedd 21 o ymatebwyr yn erbyn ac nid oedd 19 wedi rhoi eu barn (gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol fel y Comisiwn Etholiadol). Dim ond 8 ymateb oedd o blaid y cynnig.

Roedd yr ymatebion a oedd yn gwrthod y cynnig hwn yn cynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a oedd yn nodi mai ychydig o bobl sy'n edrych ar y ffurflenni Datganiad am y Sawl a Enwebwyd. Roedd pedwar ymateb arall yn ategu'r pwynt hwn. Awgrymodd y Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd fod yr wybodaeth y mae angen ei chynnwys eisoes yn y Datganiad naill ai'n rhoi digon o wybodaeth i etholwyr ynghylch ymgeiswyr ac, mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, ni fyddai cynnwys geiriad safonol yn cael fawr o effaith gan mai'r unig gymhwyster daearyddol yw bod yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw hefyd at y ffaith y byddai cyflwyno mwy o wybodaeth ar y ffurflen yn ei gwneud hi'n anoddach darllen a deall y ffurflen sydd eisoes yn orlawn.

**C57. Pa gamau eraill fyddai'n cyfrannu at leihau achosion o gam-drin ymgeiswyr?**


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 31

Roedd themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys tri ymateb a oedd yn awgrymu canlyniadau llymach ar gyfer cam-drin ar-lein. Roedd argaeledd hyfforddiant a gwybodaeth yn cael ei gefnogi ymhellach yn yr ateb hwn hefyd gyda chwe ymateb yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth a hyfforddiant ar fynd i'r afael â materion a allai godi a rhoi gwybod amdanynt. Awgrymodd un ymateb y dylid ystyried sut y gellid ymestyn y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i ariannu hanfodion diogelwch ar gyfer pobl â

nodweddion gwarchoddedig. Roedd pedwar ymateb yn tynnu sylw at bwysigrwydd addewidion ymgyrchoedd trawsbleidiol cyn etholiadau mawr.

### Addas i Bobl Ifanc C11. Ydych chi'n meddwl y bydd y camau hyn yn lleihau camdriniaeth ac yn gwneud ymgeiswyr yn fwy diogel?


Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 33



Roedd yr ymatebion i'r papur ymgynghori Addas i Bobl Ifanc yn adlewyrchu'n fras y rhai a ddarparwyd i brif fersiwn y papur ymgynghori. O'r 33 ymateb, roedd 15 yn cytuno â'r cynigion, nid oedd deg yn gwybod, ac nid oedd wyth yn cytuno â'r cynigion.

### C58. A ddylai Gweinidogion Cymru ddeddfu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu a chynnal 'Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig'?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 54



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd 48% o ymatebwyr yn cytuno y dylid creu deddfwriaeth er mwyn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu a chynnal Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. Roedd 35% yn anghytuno â'r cynnig hwn ac roedd 17% yn ansicr.

Roedd nifer o'r rheini a oedd o blaid y cynnig yn credu y gallai arwain at gynnydd yn y nifer y bobl anabl sy'n sefyll fel ymgeiswyr ar gyfer etholiad.

Teimlai eraill na fyddai o fudd ac y byddai angen mwy o dryloywder, ac roedd ymatebwyr eraill yn cytuno y dylid ehangu'r gronfa i gefnogi grwpiau eraill nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

**C59. A ddylai'r Gronfa hon fod ar gael i gefnogi ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer pob is-etholiad ac etholiad cyffredin datganoledig yng Nghymru?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 42

Roedd dros hanner yr ymatebwyr naill ai heb ateb y cwestiwn hwn neu heb roi ateb pendant. O'r rhai a fynegodd ffafriaeth, roedd y mwyafrif yn cytuno na ddylid gwahaniaethu rhwng etholiadau Cymru.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys y dylai'r gronfa fod ar gyfer ymgeiswyr annibynnol yn unig ac y dylai'r gronfa fod yn ddigon hyblyg i addasu i gynnig cymorth i grwpiau perthnasol eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a bod disgwyl, yn dilyn y trefniadau peilot, y byddai'r gronfa hon ar gael ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.


**C60. Os ydych chi'n cytuno y dylai'r Gronfa fod yn ofyniad a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, beth ddylai'r paramedrau fod ar gyfer gweithredu'r Gronfa?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 26

Ychydig o ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r gronfa fod ar gael i bobl â nodweddion gwarchoddedig ac sy'n bodloni meini prawf gweithredu cadarnhaol, ac roedd eraill yn credu y dylai elfennau o'r Gronfa gael eu cydgynhyrchu, a bod dyfarniadau'n cael eu rhoi gan baneli sy'n cynnwys pobl sy'n cynrychioli'r gymuned berthnasol. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai'n well i'r unigolion neu'r sefydliadau hynny sy'n cefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli neu ddarpar ymgeiswyr ddiffinio'r paramedrau.

**C61. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diddymu'r gofyniad i osod cwestiynau Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol mewn rheoliadau?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 47



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylid diddymu'r gofyniad i osod cwestiynau mewn rheoliadau. Roedd y rhai a oedd o blaid y safbwynt hwn yn credu y byddai hyn yn galluogi hyblygrwydd yn y broses o greu holiadur wrth symud ymlaen, ac roedd eraill yn dweud nad oedd cynnal yr arolwg yn y rheoliadau yn caniatáu iddo gael ei addasu'n gyflym o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau.

Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb yn esblygu ac y dylai'r rheoliadau gael hyblygrwydd i adlewyrchu hyn.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd yr arolwg a'r angen iddo barhau, gyda phob barn yn cael ei hystyried mewn modd tryloyw ac agored.

### **C61a. Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno, a ddylai'r arolwg gael ei ddiweddarau drwy broses adolygu ffurfiol sy'n cynnwys partneriaid allweddol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 28

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cwestiwn blaenorol yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn rhesymegol diweddarau arolygon yn y dyfodol drwy ryw fath o broses adolygu'r ymgynghoriad. Nododd ymatebion eraill y dylid ei reoli trwy grwpiau cynghori neu gynrychiolwyr grwpiau cydraddoldeb a'i gydgyhyrchu â chyrrff sy'n cynrychioli'r cymunedau hynny â nodweddion gwarchoddedig.

### **C62. Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol gael hyblygrwydd i ofyn cwestiynau am fesurau lleol i ehangu cyfranogiad?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 41

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai'n well cael un arolwg cyfunol a phroses adolygu ar y cyd, ac roedd eraill yn dweud y dylai cwestiynau adlewyrchu iaith y model cymdeithasol. Roedd argymhellion eraill yn cynnwys arolwg symlach i ymgeiswyr a fyddai'n haws i ymgeiswyr ei lenwi ac i awdurdodau lleol ei weinyddu.

### **C63. Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys cwestiynau yn yr arolwg am brofiadau ymgeiswyr o gam-drin ac aflonyddu (gweler yr adran ar "mesurau eraill rydym yn eu cymryd i sicrhau diogelwch ymgeiswyr")?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 45

Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn, gyda bron i 70% yn cytuno y dylid cynnwys cwestiynau am gam-drin a phrofiad yn yr arolwg. Dywedodd ymatebwyr y byddai cynnwys hyn yn cefnogi mesurau i ddarparu cyllid i gefnogi diogelwch ymgeiswyr ac y gallai helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelwch ymgeiswyr yng Nghymru. Dywedodd ymatebwyr eraill y dylai'r arolwg gynnwys cwestiwn yn holi a oedd unrhyw gam-drin neu aflonyddu wedi'i gyfeirio'n benodol at berson o grŵp nodweddion gwarchoddedig, ac fe dynnwyd sylw at bwysigrwydd deall profiadau ymgeiswyr.

**C64. Ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r set lawn o gwestiynau neu dim ond y cwestiynau craidd ar gyfer Cymru?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 38

Roedd llai na hanner yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd y mwyafrif yn credu y dylai Gweinidogion gymeradwyo'r cwestiynau craidd ar gyfer Cymru. Roedd y sylwadau a gafwyd yn croesawu'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynnwys cwestiynau sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau lleol, ond awgrymodd un ymatebydd hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol casglu gwybodaeth ychwanegol am brofiad ymgeiswyr yn gyffredinol.

## Pennod 6: Moderneiddio Etholiadau Cymru

### Cwestiwn 65: Beth yw eich barn am effaith cadw at yr amser adnewyddu presennol o 5 mlynedd yng ngoleuni newidiadau Deddf Etholiadau 2022?


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 38

Roedd 68% o'r ymatebwyr o blaid newid y gofyniad i adnewyddu'r bleidlais drwy'r post i dair blynedd. Roedd ymatebwyr yn nodi ei bod yn bosibl i etholwyr ddrysu pan nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi cofrestru ar gyfer pleidlais drwy'r post ai peidio pan fo gwahaniaeth rhwng etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig. Nodwyd hefyd y costau posibl a'r baich gweinyddol ychwanegol sy'n deillio o'r gwahaniaeth hwn.

Roedd 18% o'r ymatebwyr o blaid cadw at y system adnewyddu 5 mlynedd bresennol, ac roedd rhai'n teimlo bod gormod o newid wedi bod yn ddiweddar.

### Cwestiwn 66: Hoffech chi weld pleidleisio ymlaen llaw a/neu bleidleisio mewn amryw o leoliadau yn cael ei gynnig mewn etholiadau datganoledig ledled Cymru?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 61



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr o blaid yr egwyddorion gwella cyfranogiad a hygyrchedd, roedd safbwyntiau cymysg ynghylch gwerth ymarferol cynlluniau sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd o ran ble a phryd y gall pobl bleidleisio. Dywedodd ymatebwyr fod yr achosion sylfaenol dros beidio â chymryd rhan yn gymhleth, ac er y gallai mwy o ddewis o ran lleoliad ac amser pleidleisio fod yn ddefnyddiol i rai pobl, mae'r dystiolaeth hyd yma yn dangos nad yw cynlluniau pleidleisio hyblyg yn cael effaith sylweddol ar batrymau pleidleisio cyffredinol. Roedd pryderon ynghylch cost a gwerth am arian yn ogystal â chymhlethdodau o ran gweinyddu.

Grwpiau ymgyrchu oedd y mwyafrif cefnogol ynghyd â'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn cyfochrog yn yr ymgyngoriad Addas i Bobl Ifanc. Cyfeiriodd ymatebwyr yn y ddau grŵp hyn at rwystrau hygyrchedd a wynebir gan lawer o bobl ac roeddent o'r farn y gallai mwy o hyblygrwydd helpu rhai pobl i bleidleisio, yn enwedig pobl anabl a myfyrwyr. Fodd bynnag, nid oedd yn glir pa fodel o hyblygrwydd fyddai'n cael ei




werthfawrogi fwyaf gyda nifer o ymatebwyr yn y categori hwn yn dymuno gweld pleidleisio digidol/ar-lein yn cael ei gynnis ochr yn ochr â modelau pleidleisio traddodiadol.

Roedd llai nag 20% o aelodau'r cyhoedd a atebodd y cwestiwn hwn o blaid cynlluniau pleidleisio hyblyg ac roedd y rhai a roddodd sylwadau yn poeni am gost a gwerth am arian. Nid oedd consensws ynghylch y model sy'n cael ei ffafrio o ran darpariaethau gorsafoedd pleidleisio a dywedodd nifer o ymatebwyr ei bod yn anodd ateb y cwestiwn oni bai fod rhagor o fanylion yn cael eu darparu ynghylch sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.

Roedd ymatebwyr o Awdurdodau Lleol yn frwdfrydig ynghylch moderneiddio'r system etholiadol ond roeddent yn nodi'r dystiolaeth amhendiant o werthusiad y Comisiwn Etholiadol o'r cynlluniau peilot pleidleisio ymlaen llaw a gynhaliwyd yn etholiadau lleol 2022 ac yn awgrymu bod angen dadansoddiad pellach o gostau a manteision y model pleidleisio hwn. Roeddent wedi codi nifer o bryderon, gan gynnwys y rhai y tynnwyd sylw atynt eisoes gan y Comisiwn Etholiadol, megis y nifer isel sy'n cymryd rhan, cymhlethdod gweithredol, cost, a gwerth am arian. Nodwyd yn benodol yr heriau i awdurdodau lleol o ran cyflawni cynlluniau pleidleisio hyblyg pan mae gwahaniaeth cynyddol rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau a gadwyd yn ôl, costau cynnig mwy o ddewis – yn enwedig mewn awdurdodau gwledig mawr, a'r pwysau ar dimau gwasanaethau etholiadol o ran maint a chymhlethdod y newid dros y blynyddoedd nesaf.

### **Addas i Bobl Ifanc C12. Ydych chi'n meddwl bod pleidleisio ymlaen llaw yn syniad da?**


Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 35



Ymatebwyr i'r ymgynghoriad Addas i Bobl Ifanc oedd y mwyaf cefnogol, gyda 57% yn ystyried pleidleisio ymlaen llaw yn syniad da. Nododd un ymatebydd fod etholiadau'n aml yn digwydd ar adeg brysur yn ystod y flwyddyn academiaidd ac roedd o'r farn y gallai mwy o hyblygrwydd o ran ble a phryd y mae pobl yn pleidleisio ei gwneud yn haws i rai myfyrwyr gymryd rhan. Ar y llaw arall, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod digon o hyblygrwydd yn y ffordd y mae pobl yn pleidleisio a bod y rhesymau dros beidio â chymryd rhan yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys diffyg dealltwriaeth, diddordeb ac ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth.

**Cwestiwn 67: Ydych chi'n cefnogi cyflwyno system ar-lein ar gyfer pleidleisio absennol yng Nghymru? Os ydych, beth hoffech ei weld?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 59



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Roedd 65% o ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno system ar-lein ar gyfer pleidleisio absennol. Teimlai ymatebwyr y byddai hyn yn apelio at gynulleidfa ehangach ac yn gwella hygyrchedd. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai'r system hon fod yn rhan o Wasanaeth Digidol ehangach y DU – roeddent yn teimlo y byddai'r baich gweinyddol ychwanegol o gynnal dwy system yn sylweddol. Nododd ymatebwyr hefyd y dylai'r system fod ar gael yn Gymraeg ac y dylid parhau i gynnal y system bapur bresennol.

Roedd sawl ymatebydd wedi sôn y dylid ystyried cynnal dull dilysu ID ychwanegol ar gyfer system ar-lein. Roedd cymysgedd o safbwyntiau. Roedd rhai o'r farn na ddylid cael unrhyw ofnyion ychwanegol, roedd rhai o'r farn ei bod yn briodol gofyn am rif Yswiriant Gwladol, ac roedd un arall yn nodi y dylid cadarnhau ID wyneb yn wyneb.

Roedd 24% o'r ymatebwyr yn erbyn system bleidleisio ar-lein. Mynegwyd pryderon ynghylch risg uwch o dwyll a risg o ran diogelwch data. Nodwyd y posibilrwydd o ddifreinio digidol hefyd.

**Addas i Bobl Ifanc C13. Ydych chi'n meddwl bod y newid hwn i wneud cais am bleidlais bost yn syniad da?**


Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 35



Roedd 68.6% o'r ymatebwyr i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc o blaid y newid hwn ac roedd 17.1% yn erbyn.

## Cwestiwn 68a: Ydych chi'n meddwl y byddai system o'r fath yn helpu i leihau nifer y pleidleisiau drwy'r post a wrthodir oherwydd gwallau ar y Datganiad Pleidlais drwy'r Post, ac yn helpu i fagu hyder y cyhoedd yn y system bleidleisio drwy'r post?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 52



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Dylid nodi bod problemau yn ymwneud â threfn cwestiynau ym mhennod 6 y prif ymgynghoriad wedi arwain at nifer yn ymateb i gwestiynau 68a a 68b yng nghydestun y system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol yn hytrach na'r system olrhain pleidleisiau drwy'r post fel y bwriadwyd.


Roedd cyfran sylweddol o ymatebion i gwestiwn 68a yn canolbwyntio ar y system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol yn hytrach na system olrhain pleidleisiau drwy'r post. I eraill, nid oedd yn amlwg i ba system yr oedd eu hymateb yn berthnasol. Dim ond tri ymateb a oedd yn cyfeirio'n glir at system olrhain pleidleisiau drwy'r post.

I'r ymatebion oedd yn ymwneud â'r system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol, roedd cefnogaeth gyffredinol y gallai system o'r fath helpu i leihau nifer y pleidleisiau post sy'n cael eu gwrthod. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y gallai'r system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol atal camgymeriadau cyffredin yn ystod y cam ymgeisio a allai arwain yn ddiweddarach at wrthod pleidleisiau post. Roeddent hefyd o'r farn y gellid defnyddio'r system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol i hyrwyddo'r opsiwn i hepgor llofnodion pleidleisiau post i bleidleiswyr yn fwy effeithiol, a allai yn ei dro helpu i leihau cyfraddau gwrthod. Roedd ymatebwyr hefyd yn credu y gallai'r system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol ganiatáu casglu cyfeiriadau e-bost a fyddai'n helpu i hwyluso cyfathrebu mwy amserol rhwng Swyddogion Canlyniadau a phleidleiswyr post pe bai unrhyw brosesau olrhain a chywiros pleidleisiau post yn cael eu cyflwyno.

Roedd ymatebwyr a oedd yn canolbwyntio ar system olrhain pleidleisiau drwy'r post o'r farn y byddai manteision i'r math hwn o system. Dywedodd un ymatebydd y byddai system olrhain pleidleisiau drwy'r post yn helpu i egluro'r rhesymau dros wrthod pleidleisiau post ac wedyn yn magu hyder y cyhoedd yn y system.

## Cwestiwn 68b: A fyddai modd defnyddio system heb fod yn awtomatig i wneud hyn?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 48



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Fel gyda chwestiwn 68a, roedd y rhan fwyaf a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn gwneud hynny yng nghyd-destun y system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol neu nid oedd yn glir at ba system yr oedd eu sylwadau'n cyfeirio.

I'r rheini a ymatebodd yng nghyd-destun y system gwneud cais ar-lein am bleidlais absennol, y farn gyffredinol oedd na ellid ymgymryd â'r prosesau hyn â llaw. Yn benodol, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'n anymarferol ychwanegu gwiriadau dilysu i system â llaw. Nododd fod gwiriadau â llaw o geisiadau am bleidlais absennol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ond nid yw'r rhain yn gwarantu y bydd yr holl wallau'n cael eu canfod. Problem arall oedd y gwahaniaeth yn y broses o wneud cais am bleidlais bost o ganlyniad i Ddeddf Etholiadau 2022.

Ymysg ymatebwyr yn y gymuned etholiadol, roedd cefnogaeth i gynnwys negeseuon ychwanegol ar ffurflenni cais ar bapur mewn perthynas â'r opsiwn i hepgor llofnodion pleidlais bost. Awgrymodd tri ymatebydd y dylid ystyried ei gwneud yn orfodol i ddarparu cyfeiriad e-bost neu rifau cyswllt ar ffurflenni cais gan y byddai hyn yn cynorthwyo Swyddogion Canlyniadau i gysylltu â phleidleiswyr yn fwy prydlon pan fo gwallau'n cael eu canfod. Dywedodd un ymatebydd y byddai system ar-lein yn gyflymach na'r prosesau â llaw presennol ac y gallai ostwng y gyfradd wrthod ar gyfer ceisiadau, yn enwedig ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n dod i law yn agos at y dyddiad cau.

## Cwestiwn 69: A fyddai cyflwyno system olrhain pleidleisiau drwy'r post yn creu baich gweinyddol sylweddol ar dimau etholiadol awdurdodau lleol?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 52




Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd bron i 54% a ymatebodd y cwestiwn hwn yn credu y byddai cyflwyno prosesau olrhain pleidleisiau post a chywiro gwallau yn cynyddu'r baich gweinyddol ar dimau etholiadol. Yn benodol, nododd bryderon ynghylch yr adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen a'r llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer timau etholiadol ar adeg hollbwysig yn amserlen yr etholiad.

Nododd ymatebwyr fesurau a allai, yn eu barn nhw, helpu i leihau'r baich gweinyddol ychwanegol. Roedd pedwar ymatebydd o'r farn y byddai gofyn am fanylion cyswllt dros y ffôn neu e-bost gan ymgeiswyr am bleidleisiau post yn ei gwneud yn haws i dimau etholiadol gysylltu ag etholwyr y gwrthodwyd eu pleidleisiau. Credai pump y gellid lleihau'r effaith pe bai'r etholwr, yn hytrach na thimau etholiadol, yn gyfrifol am wirio statws ei bleidlais bost gan ddefnyddio rhyw fath o borth e-dracio, ac am gychwyn y broses o gywiro gwallau mewn ffordd debyg i'r trefniadau presennol ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post sy'n cael eu difetha. Roedd chwech o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu gosod dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i gysylltu â phleidleiswyr y mae eu pleidleisiau post yn cael eu gwrthod. Dywedodd un ymatebydd y gallai system olrhain electronig ddileu'r angen i gysylltu ag etholwyr ar ôl yr etholiad pe bai rhesymau dros wrthod pleidleisiau post yn cael eu cynnwys ar y system.

## Cwestiwn 70: Ydych chi'n cefnogi cyflwyno system e-dracio pleidleisiau drwy'r post yng Nghymru?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 53




Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig o dan hanner y rheini a ymatebodd o blaid yn llwyr neu'n rhannol cyflwyno system tracio pleidleisiau post fel ffordd o leihau nifer y pleidleisiau post sy'n cael eu gwrthod, magu hyder y cyhoedd yn y system bleidleisio drwy'r post, ac annog mwy o ymgysylltu democrataidd. Ystyriaethau diogelwch, costau a gwerth am arian oedd y pryderon a godwyd amlaf.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â gyflwyno prosesau olrhain yn mynegi pryderon ynghylch yr adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen i hwyluso'r prosesau hyn a'r llwyth gwaith ychwanegol a fyddai'n cael ei roi ar dimau etholiadol. Codon gwestiynau hefyd ynghylch gweithrediad y prosesau hyn, yn enwedig mewn perthynas ag amseriad ac amllder sesiynau agor pleidleisiau post, gan sicrhau bod dull gweithredu cyson ar waith ar gyfer pob etholwr a sut byddai'r prosesau'n gweithio ar gyfer etholiadau cyfun. Roedd tri ymatebydd am i gyllid fod ar gael gan Lywodraeth Cymru petai prosesau olrhain a chywiro pleidleisiau post yn cael eu cyflwyno. Roedd pedwar o blaid treialu unrhyw system a oedd yn cael ei chyflwyno cyn ei chyflwyno'n llawn.

### **Addas i Bobl Ifanc C14. Ydych chi'n meddwl bod system olrhain electronig yn syniad da?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 36



Roedd 50% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad Addas i Bobl Ifanc yn credu bod system electronig ar gyfer olrhain pleidleisiau drwy'r post yn syniad da, ac roedd 19% yn anghytuno. Roedd y 31% arall yn ansicr.

Dyweddodd ymatebwyr a oedd o blaid cael system olrhain y byddai'n sicrhau nad yw pleidleisiau'n cael eu colli, y byddai'n mynd i'r afael ag ofnau pleidleiswyr bod eu pleidlais bost wedi'i cholli ac yn darparu ffordd iddynt wybod bod eu pleidlais wedi'i chofnodi a'i chyfrif. Byddai'n gwella gwelededd, yn cefnogi mwy o ymgysylltu â'r broses etholiadol, ac yn helpu i atal twyll etholiadol. Nid oedd ymatebwyr eraill yn gweld manteision y system, neu'n meddwl nad oedd y manteision yn cyfiawnhau'r gofynion o ran adnoddau y byddai eu hangen.

### **Cwestiwn 71: Ydych chi'n cefnogi cyflwyno a defnyddio Cofrestrau Digidol yn ehangach ar gyfer etholiadau nad ydynt yn cael eu cadw yn ôl yng Nghymru? Beth yw manteision neu anfanteision gwneud hyn?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 46

Roedd 67% o blaid cyflwyno Cofrestrau Digidol yn ehangach. Nododd ymatebwyr eu bod yn fwy effeithlon i'w defnyddio a'u paratoi cyn yr etholiad. Roeddent yn lleihau gwastraff papur ac anghenion staffio. Nododd ymatebwyr a oedd wedi defnyddio'r system y ffrydiau data defnyddiol roeddent wedi'u darparu ar ddiwrnod yr etholiad. Roedd nifer wedi nodi eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflwyno gwahanol fathau o bleidleisio (fel pleidleisio hyblyg, pleidleisio ymlaen llaw neu ganolfannau rhanbarthol). Gallai eu darparu ar raddfa fwy leihau'r gost o roi'r system ar waith.


Nododd ymatebwyr y dylid cadw copi caled o'r dogfennau. Byddai'n rhaid i'r system gael diogelwch data da, a byddai angen dibynadwyedd ychwanegol mewn ardaloedd gwledig. Nodwyd cost bosibl y system a dylid ei ariannu'n ganolog. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai angen i'r system fod ar gael yn Gymraeg. Roedd ymatebwyr yn poeni na fyddai manteision llawn y system yn cael eu cyrraedd pe na bai'n cael ei mabwysiadu ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl.

Roedd 20% o ymatebwyr yn erbyn cyflwyno Cofrestrau Digidol yn ehangach. Roeddent yn codi pryderon ynghylch achosion damweiniol o dor data, twyll a diogelwch data. Soniwyd am hacio a'r potensial i'r data gael ei gopïo. Nodwyd hefyd

y diffyg tryloywder y byddai'r system yn ei gyflwyno ynghyd â'r potensial ar gyfer allgáu digidol.

**Addas i Bobl Ifanc C15. Ydych chi'n meddwl bod Cofrestrau Digidol yn syniad da?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 34




Roedd 61.8% o'r ymatebwyr i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc o'r Papur Gwyn o blaid y Cofrestrau Digidol a gyflwynwyd, gan nodi y byddent yn ffordd fwy effeithiol, effeithlon a dibynadwy o gasglu a chynnal data'r gofrestr etholiadol.

Roedd 20.6% o'r ymatebwyr yn erbyn eu cyflwyno, gan godi pryderon ynghylch diogelu data ac nid oeddent yn ystyried bod unrhyw broblemau gyda'r broses bresennol.

**Cwestiwn 72: A oes rhwystrau posibl rhag cyflwyno Cofrestrau Digidol yn ehangach?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 45



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Roedd 55.6% o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn credu bod rhwystrau posibl i gyflwyno cofrestrau digidol yn ehangach yng Nghymru. Roedd y pryderon a godwyd amlaf yn ymwneud â chostau gweithredu, diogelwch, dibynadwyedd a chysylltedd (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig). Codwyd hefyd y gwahaniaeth rhwng etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig fel mater posibl.



## Pennod 7: Gwella Ein Democratiaeth

### Cwestiwn 73: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gorfodol i gynghorwyr?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 62



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd cefnogaeth gref o blaid hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr, gyda 76% yn cytuno. Dywedodd y rhai a oedd o blaid bod datblygiad proffesiynol yn hanfodol, er bod eraill yn credu na ddylai fod yn rhy feichus ond eu bod yn deall bod angen i unigolion gael dealltwriaeth glir o ddisgwyliad y rôl a'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

Fodd bynnag, roedd 24% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac yn nodi, gan fod rhywfaint o hyfforddiant eisoes yn orfodol yn lleol, y dylai'r hyfforddiant sy'n weddill fod yn ddewisol. Roedd rhai ymatebwyr yn cymharu bod yn gynghorydd â mathau eraill o swyddi cyhoeddus ac yn nodi nad oes angen hyfforddiant gorfodol ar gyfer y rolau hynny.

### Cwestiwn 74: Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i gwestiwn 73, a ddylai'r hyfforddi a'r datblygu gorfodol hwn ar gyfer cynghorwyr gynnwys prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 44

Roedd llai na hanner yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth, roedd bron i dri chwarter ohonynt yn cytuno y dylai hyfforddiant gorfodol gynnwys y ddau. Roedd y sylwadau'n cynnwys y dylai hyfforddiant fod yn hanfodol oherwydd bod mwy o bwerau'n cael eu datganoli i lefel cynghorau cymuned. Roedd ymatebion eraill yn egluro y dylid disgwyl yr un safonau ymddygiad ar y ddwy lefel.

Fodd bynnag, roedd rhai yn anghytuno ac yn dweud bod gan gynghorwyr tref a chymuned rôl wahanol, bod Cynghorwyr yn wirfoddol, ac y dylid teilwra hyfforddiant yn unol â hynny oherwydd y gwahaniaeth o ran cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau.

**Cwestiwn 75: Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i gwestiwn 74, a ddylai'r disgwyliadau ar gyfer hyfforddiant gorfodol fod yn wahanol rhwng prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 40

Roedd 13 o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylai'r hyfforddiant fod yn wahanol oherwydd y gwahanol lefelau o gyfrifoldeb, ac y dylai gael ei deilwra i anghenion gwahanol rolau Cynghorydd Sir a Chymuned. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai hyfforddiant fod yn gyson ar draws pob grŵp a fyddai'n gwella symudiad rhwng sefydliadau.

**Cwestiwn 76: Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i gwestiwn 75, pa gynigion fydddech chi'n gwneud ar gyfer meysydd i'w cynnwys mewn hyfforddiant gorfodol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 34

Roedd cyfanswm o ddeunaw o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cynnig cynnwys y canlynol mewn unrhyw hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr: Cod Ymddygiad, ymddygiad ar-lein, sgiliau pobl, cyllid, cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynllunio.

**Cwestiwn 77: Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno y dylid cael hyfforddiant gorfodol, ydych chi'n meddwl y dylid gofyn i ymgeiswyr gadarnhau eu parodrwydd i ymgymryd â'r hyfforddiant fel rhan o'r broses enwebu ymgeiswyr?**


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 43

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig i ddemocratiaeth symud ymlaen, ac roedd eraill yn credu y dylid egluro'r hyn a ddisgwylir gan yr ymgeisydd ac y dylid ei gynnwys mewn unrhyw bapurau enwebu, ynghyd â'r hyfforddiant a oedd ar gael ar dudalen we'r Cynghorydd.

Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr fod hyfforddiant gofynnol eisoes wedi'i gynnwys mewn amserlenni adeg y cam enwebu.

**Cwestiwn 78: A ddylid wedyn gosod sancsiynau ar ymgeiswyr nad ydynt yn cadarnhau eu bod yn barod i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 55




Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cael sancsiynau, ond roedd 18% yn ansicr. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai angen hyfforddiant i ddeall gofynion y rôl a'r cyngor, gydag eraill yn awgrymu y dylid cofnodi penderfyniadau gan unigolion ar y cofnod cyhoeddus.

Roedd y rheini nad oeddent yn cytuno yn credu na ddylai hyn fod yn ofyniad i sefyll am swydd ac nad oedd budd yn y sefyllfa hon gan y gallai fod yn rhwystr rhag sefyll oherwydd y natur a'r ymrwymiad sy'n ofynnol ar gyfer hyfforddiant.

**Cwestiwn 79: A ddylai ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddi a datblygu gorfodol fod yn rhan o'r llw y mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ei gymryd cyn gallu derbyn eu swydd?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 53



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd cefnogaeth gref i'r dull hwn, gyda dros 60% yn cytuno. Dywedodd y rhai a oedd yn cytuno y dylai'r ymrwymiad gael ei ddisgrifio'n glir ar gyfer ymgeiswyr ac y dylai hyfforddiant fod yn orfodol, gydag un ymatebydd yn awgrymu y byddai hyn yn pwysleisio'r ymrwymiad i'r rôl.

Roedd safbwyntiau croes, gydag atebion yn tynnu sylw at y ffaith, pe bai hyn yn orfodol, ei od yn bosibl na fyddai'n denu unigolion i geisio cael eu hethol gan fod rhai unigolion yn dewis peidio â derbyn tâl am y rôl, gan ystyried eu hunain yn wirfoddolwyr.

**Cwestiwn 80: Os mai Dylai oedd yr ateb yng nghwestiwn 79, pa sancsiynau ddylai fod yn berthnasol i aelodau etholedig am beidio ag ymgymryd â hyfforddi a datblygu gorfodol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 39

Roedd 25 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn awgrymu y dylid diswyddo aelodau etholedig, eu gwahardd nes bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau a bod eu lwfans treuliau'n cael ei atal. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys anallu i bleidleisio ar benderfyniadau mewn pwyllgorau lle mae hyfforddiant gorfodol yn gysylltiedig, a pheidio â thalu cyfran o'u cyflog os nad yw'r hyfforddiant wedi cael ei gyflawni o fewn cyfnod penodol.


**Hawdd ei Ddeall C16. Yn eich barn chi, ddylai pob cynghorydd gael hyfforddiant mewn rhai meysydd pwysig?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: 6

O'r ymatebion i'r cwestiwn Hawdd ei Ddeall, credai un ymatebydd y dylai fod hyfforddiant gorfodol i bob cynghorydd (gan gynnwys cynghorwyr tref a chymuned) fel eu bod yn cael y lefel o ddealltwriaeth a oedd yn ofynnol ganddynt wrth gyflawni'r rôl hon. Credai un arall y dylai hyfforddiant fod yn wirfoddol, a dywedodd un arall y dylai hyfforddiant fod yn orfodol ar ôl iddynt gael eu hethol. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn tynnu sylw at y ffaith na fyddai pob cynghorydd yn ymwneud â phob maes sy'n cael ei gynnwys mewn hyfforddiant, ac felly dylai hyfforddiant fod ar gyfer y rheini sy'n ymwneud yn weithredol yn unig er mwyn arbed costau.

**Cwestiwn 81: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig polisi i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynghorwyr Tref a Chymuned yn cyd-fynd â'r gyfundrefn anghymhwys ar gyfer aelodau prif gynghorau yng Nghymru, fel bod aelodau cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hanghymhwyso rhag dod yn aelod o'r Senedd?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 53




Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Roedd 41 o'r ymatebwyr o blaid, ac roedd 12 yn erbyn. O'r rheini a oedd o blaid, roedd 20 yn unigolion ac roedd 18 yn sefydliadau. O'r rheini a oedd yn erbyn, roedd saith yn unigolion ac roedd tri yn sefydliadau..

Roedd yr adborth yn canolbwyntio ar ymarferoldeb. Dywedodd ymatebwyr o blaid fod gwrthdaro rhwng buddiannau a rheoli amser mewn rolau 'dwy het' yn feysydd pryder, y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw. Awgrymodd rhai ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig y gallai rolau 'dwy het' godi proffil y sector tra gallai dileu rolau 'dwy het' effeithio'n negyddol ar recriwtio cynghorwyr Tref a Chymuned, a oedd yn heriol.

**Cwestiwn 82: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig polisi na ddylid cael cyfnod gras i bob cynghorydd sy'n cael ei ethol i'r Senedd?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 43



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd ymatebwyr o blaid cadw'r cyfnod gras ar gyfer pob cynghorydd a etholwyd i'r Senedd.

Roedd 27 o'r ymatebwyr o blaid, ac roedd 16 yn erbyn. Yn y grŵp o blaid, roedd 15 o unigolion ac 11 o sefydliadau, un heb ei nodi, ac yn y grŵp yn erbyn roedd saith unigolyn a phedwar sefydliad heb eu nodi.

Dyweddodd y rhai o blaid y dylid cadw'r cyfnod gras os bydd y cylchoedd etholiadol presennol yn aros yr un fath, ond roedd eraill yn dadlau y gellid gostwng y cyfnod gras i chwe mis ac y gallai aelodau ymddiswyddo'n awtomatig o'u rôl flaenorol pan gânt eu hethol i swydd newydd.

Roedd ymatebwyr a oedd yn erbyn yn dadlau y gallai cael dau neu fwy o swyddi etholedig gyfyngu ar y cyfle i ehangu'r gronfa o brofiad a thalent mewn gwneud penderfyniadau lleol. Roeddent hefyd yn awgrymu na fyddai materion gwrthdaro rhwng buddiannau a rheoli amser yn cael sylw llawn pe byddai cyfnod gras.

Roedd y prif adborth wedi'i strwythuro o amgylch materion ariannol o ran cynnal is-etholiad a chydabyddiaeth ariannol cynghorwyr.

### a) Costau cynnal is-etholiad

Dywedodd ymatebwyr a oedd yn erbyn y byddai cadw'r cyfnod gras yn osgoi costau cynnal is-etholiadau, ac roedd ymatebwyr o blaid yn dadlau na ddylai costau is-etholiadau lesteirio democratiaeth.


### b) Cydnabyddiaeth Ariannol

Dywedodd ymatebwyr y dylid adolygu taliadau aelodau 'dwy het' yn ystod y cyfnod hwnnw a'u cysoni â rheolau tebyg sydd gan gyrff cyhoeddus eraill ar gyfer cynghorwyr prif awdurdod, sydd ond â hawl i un lwfans cyflog uwch i atal mwy nag un taliad ar gyfer y rolau gwahanol maen nhw'n eu cyflawni.

## Cwestiynau Olaf

**Cwestiwn 83: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r ffordd o asesu effeithiau'r cynigion a nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig drafft? Oes gennych chi unrhyw sylwadau?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 25



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.


Roedd 15 o ymatebion yn cytuno â'r dull o asesu effeithiau'r cynigion ac roedd deg yn anghytuno. O'r rheini a oedd o blaid, roedd tri unigolyn a 12 sefydliad. O'r rheini a oedd yn erbyn, roedd naw unigolyn ac un sefydliad. Roedd y sylwadau a godwyd yn cynnwys:

- Croesawu'r datganiad y byddai unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau lleol yn cael ei ysgwyddo gan Lywodraeth Cymru
- Y posibilrwydd o gostau ychwanegol i'r Comisiwn Etholiadol
- Cytuno â'r asesiad cychwynnol yn yr Asesiad Effaith Integredig drafft ynghylch effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg
- Yr angen i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

O'r rheini nad oeddent yn cytuno â'r dull gweithredu, roedd y rhan fwyaf yn unigolion, gyda rhai yn nodi rhesymau fel costau a'r farn bod Asesiad Effaith Integredig yn ymarfer 'ticio blychau' yn unig.

**Cwestiwn 84: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r ffordd o asesu costau a manteision y cynigion deddfwriaethol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 24



Dangosir gwerthoedd fel canran o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn.

Roedd 16 o'r ymatebwyr yn cytuno – chwe unigolyn a deg sefydliad. Roedd wyth ymateb yn anghytuno (pob un yn unigolion). Dywedodd ymateb arall ei fod yn croesawu'r ymrwymiad i ariannu unrhyw feichiau newydd. Awgrymodd Swyddog Canlyniadau y byddai'n hoffi cael cyfle i adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig eto cyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth.

Cyfeiriodd y rheini a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu at gostau a'r farn mai ymarfer 'ticio blychau' oedd yr Asesiad Effaith Integredig.

**Cwestiwn 85: A oes meysydd eraill y dylid eu hystyried wrth i ni ddatblygu mwy ar yr Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 17

Roedd naw o'r ymatebion yn cynnig awgrymiadau, a oedd yn cynnwys:

- Ymgysylltu'n uniongyrchol ag etholwyr a rhanddeiliaid
- Costau a manteision pleidleisio ar-lein
- Yr angen i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
- Y risg o gostau annisgwyl wrth weithredu'r cynigion hyn, gan gynnwys costau blynyddol rheolaidd.

**Cwestiwn 86: Nodwch unrhyw ffynonellau data a gwybodaeth eraill y dylem eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 11

Roedd tri o'r ymatebion yn cynnig awgrymiadau:

- Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol
- Ymgysylltu'n uniongyrchol ag etholwyr a rhanddeiliaid
- Yr angen i gyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

**Cwestiwn 87: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai ein cynigion ar gyfer diwygio etholiadol yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 33

**Cwestiwn 88: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 22

Roedd cwestiynau 87 ac 88 yn gofyn am farn ar effaith y polisi hyn ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, y consensws cyffredinol ymysg y farn a fynegwyd oedd nad oedd yn debygol y byddai effaith sylweddol ar y Gymraeg drwy weithredu'r polisi hyn. Mynegodd ymatebwyr farn bod gwasanaethau cyhoeddus yn darparu'n ddigonol ar gyfer y Gymraeg ac yn ei chefnogi.

Nododd un aelod o'r cyhoedd y dylai deunydd cyhoeddus sy'n ymwneud ag etholiadau fod yn hawdd ei ddeall ac na ddylai gynnwys terminoleg neu gyfieithiadau cymhleth. Mynegodd Comisiynydd y Gymraeg farn y dylai fod mwy o hyfforddiant ar gael i gynghorwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hynny'n cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg mewn etholiadau.

Mynegwyd barn gan randdeiliaid y dylai'r holl ddatblygiadau digidol yn y maes etholiadol fod ar gael yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nododd un ymatebydd y gall fod heriau i'w hystyried o ran y Systemau Rheoli Etholiadol gan nad oeddent yn cefnogi darpariaeth Gymraeg mor effeithiol.

Roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Swyddog Canlyniadau, dau awdurdod lleol hefyd yn awgrymu, wrth ddatblygu'r polisi hyn, fod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â grwpiau rhanddeiliaid perthnasol eraill fel Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Cymru, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru i ddarparu arbenigedd mewn perthynas â'r maes penodol hwn.

**Hawdd ei Ddeall C17. Yn eich barn chi, allai unrhyw ran o'r gwaith hwn effeithio ar y Gymraeg? Oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Tri

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn mynegi barn bod Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu'n ddigonol ar gyfer y Gymraeg.



**Addas i Bobl Ifanc C16. Ydych chi'n meddwl y bydd ein cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg? Allwch chi egluro beth fydd yr effeithiau yn eich barn chi?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 21

Cynigiodd 16 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo na fyddai unrhyw effaith, neu ychydig iawn o effaith, ar y Gymraeg. Roedd dau ymatebydd yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio'r Gymraeg yn anghymesur dros y Saesneg.

**Cwestiwn 89: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, mae croeso i chi ddweud wrthym isod.**

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 32

Roedd y sylwadau a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn codi pryderon yn y meysydd canlynol:

- Roedd ansawdd yr ymgeiswyr a'r gwleidyddion yn wael. Roedd angen mynd i'r afael â hyn er mwyn annog pobl i bleidleisio.
- Nid oedd gan Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol yr adnoddau na'r capasiti i gyflawni'r holl gynigion yn y Papur Gwyn hwn.
- Roedd gwahaniaeth rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau heb eu datganoli yn peri risg uchel o ddryswch i bleidleiswyr. Roedd hyn yn rhoi baich ychwanegol ar staff etholiadol a oedd eisoes dan bwysau ac felly dylid osgoi etholiadau cyfun.

Nododd y Comisiwn Etholiadol y byddai'n hoffi gweld camau gweithredu ar faterion etholiadol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn. Y rhain oedd:

- Disgrifiadau ar y cyd ar y papur pleidleisio
- Gofynion cyfrinachedd pleidleisiau post
- Gwahardd ymgyrchwyr rhag delio â phleidleisiau post

Er nad yw wedi'i gynnwys yn y Papur Gwyn hwn, mynegodd dau aelod o'r cyhoedd a phedwar o randdeiliaid bryderon ynghylch cynigion diwygio'r Senedd yn y cwestiwn hwn.

**Hawdd ei Ddeall C18. Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ychwanegu sydd heb gael ei drafod?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall: Pedwar

Cafwyd pedwar ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd un yn galw am bleidleisio electronig, teimlai un arall fod y system bresennol o bleidleisio drwy'r post yn ddigonol. Nododd ymateb arall y dylai Llywodraeth Cymru geisio lleihau costau heb gynyddu biwrocratiaeth.

**Addas i Bobl Ifanc C17. A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano wrth wneud newidiadau i etholiadau yng Nghymru?**

Nifer yr ymatebion i'r fersiwn Addas i Bobl Ifanc: 19

Roedd ymatebion Addas i Bobl Ifanc yn tynnu sylw'n benodol at yr angen am ymgeiswyr o ansawdd gwell yn sefyll mewn etholiadau i annog pobl i bleidleisio.

## **4. Crynodeb o ddigwyddiadau Ymgysylltu**

4.1 Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Cawsant eu dylunio i roi gwybodaeth i randdeiliaid a phrofi'r defnydd ymarferol o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gyfarfodydd rheolaidd a chyswllt anffurfiol.

4.2 Roedd y prif ddigwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys:

- Cyfarfod rhwng y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Swyddogion Canlyniadau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a rheolwyr gwasanaethau etholiadol
- Gweithdy bwrdd crwn ar gyfer y trydydd sector ac awdurdodau lleol a oedd yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol
- Sesiwn dechnegol gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn)
- Tair sesiwn dechnegol gyda darparwyr meddalwedd etholiadol
- Tri digwyddiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth, gan gynnwys gweithdai diogelwch ymgeiswyr
- Sesiwn galw heibio i Aelodau'r Senedd ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth a diogelwch ymgeiswyr.

4.3 Ar y cyfan, roedd pawb a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ymgysylltu yn gadarnhaol ynghylch yr angen am newid a bwriad Llywodraeth Cymru i foderneiddio gweinyddiaeth etholiadol.

4.4 Mynegwyd pryderon gan Swyddogion Canlyniadau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a rheolwyr gwasanaethau etholiadol ynghylch y baich gweinyddol ac ariannol y byddai rhai diwygiadau'n ei roi ar Swyddogion Canlyniadau ac Awdurdodau Lleol. Tynnwyd sylw at redeg cynlluniau peilot fel pryder sylweddol, yn ogystal â'r elfennau digidol a gallu systemau rheoli etholiadol i weithredu'r newidiadau arfaethedig.

4.5 Roedd gwahaniaeth rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau sydd heb eu datganoli hefyd yn bryder allweddol ymysg rheolwyr gwasanaethau etholiadol a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol. Mynegwyd barn bod hyn unwaith eto'n creu baich gweinyddol i staff etholiadol, a gallai arwain at ddryswch ymysg pleidleiswyr.

4.6 Yn y gweithdai diogelwch ymgeiswyr, mynegodd y rhai a oedd yn bresennol eu bod yn cefnogi cosbau llymach a mwy o gamau cyfreithiol yn erbyn pobl sy'n cam-drin ymgeiswyr ac aelodau etholedig.

4.7 Roedd y gweinyddwyr etholiadol a oedd yn bresennol yn y sesiwn briffio technegol a gynhaliwyd gan y Comisiwn yn gefnogol ar y cyfan i'r cynigion i ddiwygio swyddogaethau'r Comisiwn.

4.8 Ymgysylltwyd â darparwyr presennol y System Rheoli Etholiadol yng Nghymru fel rhan o gyfarfodydd diweddar rheolaidd Llywodraeth Cymru. Roedd y trafodaethau'n cynnwys trosolwg o agweddau ar y Papur Gwyn ar yr

ymgyngoriad a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ddarparwyr systemau rheoli etholiadol. Bwriad y cyfarfodydd oedd sicrhau bod darparwyr systemau rheoli etholiadol yn ymwybodol o gynnwys y Papur Gwyn a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau am eglurhad. Roedd yr holl ddarparwyr yn croesawu'r ymgysylltu ac yn awyddus i barhau i drafod y materion ar ôl yr ymgynghoriad ac wrth i'r polisïau gael eu datblygu ymhellach.

4.9 Defnyddiwyd strategaeth gyfathrebu gyhoeddus hefyd, gyda gwybodaeth am gynigion yr ymgynghoriad a sut i ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar sianeli cyfryngau Cymru, a thrwy gyfathrebiadau ar-lein Llywodraeth Cymru.

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn a fydd yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth o gynyddu cyfranogiad pleidleiswyr a sicrhau bod pob dinesydd yn gallu chwarae ei ran lawn yn ein democratiaeth. Mae datganiad ysgrifenedig wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad cryno hwn, sy'n amlinellu'r camau nesaf ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu a dechrau gweithredu ein cynigion ymhellach.

## 6. Rhestr o'r Ymatebwyr<sup>1</sup>

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol.

Y Prif Ymgynghoriad:

- Fiona Hughes
- Susan Davies
- Ffred Clegg
- Mr Peter Vincent Everall, Cyngorydd Cyngor Cymuned Jeffreyston
- Cyngor Cymuned Gwynllŵg
- Keith Mortimer
- Cyngor Sir Fynwy, Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Michael Thomas
- Les Hayward
- Cyngor Sir Fynwy
- Dim un o'r uchod
- Owain Arfon Jones, Cyngorydd Cymuned, Cyngor Cymuned Gwersyllt
- Y Cyngorydd Dr. Del Morgan
- Benjamin Hickey
- Cynghrair Hil Cymru
- Roger Watson
- Cyngor Cymuned Llandochoau
- Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Reform Political Advertising
- Anabledd Dysgu Cymru
- Un Llais Cymru
- Castell-nedd Port Talbot – Swyddog Canlyniadau / Swyddog Cofrestru Etholiadol
- Cyngor Cymuned Llanismel
- Cyngor Cymuned Porthsgiwed
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- Janet Finch Saunders AS, Aelod o'r Senedd
- NUS Cymru
- Ian Lucas
- Cyngor Tref Penarth
- CGGC

- Cyngor Sir Ceredigion
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Anabledd Cymru
- Clwb Democratiaeth
- Cymdeithas Archifau a Chofnodion
- WEN Cymru
- Colegau Cymru
- Yr Athro Toby James, Athro Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus, Cydgyfarwyddwr Prifysgol East Anglia, Electoral Integrity Project
- Y Comisiwn Etholiadol
- Swyddog Canlyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- My Society
- Dr Christine Huebner, Dr Katherine A. Smith, Dr Thomas Loughran, Dr Jan Eichhorn, Dr Andrew Mycock, Prifysgolion of Sheffield, Efrog, Caerhirfryn, Caeredin and Huddersfield
- Comisiynydd Plant Cymru
- Swyddog Canlyniadau
- Cronfa Democratiaeth y DU a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Diwygio Joseph Rowntree
- Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
- Adran Gwasanaethau Democrataidd a Chofrestru Etholiadol Cyngor Caerdydd
- RNIB Cymru
- CLILC
- Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (WECEB)
- Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol, Cyngor Sir Penfro
- Democratiaeth Fodern
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bro Morgannwg
- Omidaze Productions
- Comisiynydd y Gymraeg
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Yr Ymgynghoriad Hawdd ei Ddeall:

- Cyngor Cymuned Llandochoau
- Cyngor Tref Doc Penfro
- Cyngor Tref y Fenni
- Cyngor Tref Talgarth
- Paul Woolman
- Jenny Edwards, Cynghorydd Cymuned Hirwaun
- Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf

Ymgynghoriad Iaith Arwyddion Prydain: Dim ymatebwyr

---

<sup>i</sup> Roedd 28 o ymatebwyr yn dymuno aros yn ddiennw. Ni ofynnwyd am enwau a Sefydliadau'r rhai a oedd yn llenwi fersiwn Addas i Bobl Ifanc o'r ymgynghoriad.